w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 522
Ebrill
2024

# Seiont Manor: Cynghorwyr yn gwrthod cais cynllunio

**Gwrthododd cynghorwyr Gwynedd i gefnogi cais i ailddatblygu gwesty Seiont Manor ger Llanrug yn ddiweddar.**



Dogfennau Cynllunio

Roedd y cynlluniau'n cynnwys adeiladu 28 ystafell wely ychwanegol, sef cyfanswm o 61 ystafell wely yn y gwesty moethus. Roedd y datblygwr hefyd eisiau adeiladu 39 caban gwyliau a chodi cyrtiau tenis, bloc llety staff, mwy o ofod parcio ac ystafell biomas.

Gwrthwynebwyd y cynllun gan Gyngor Cymuned Llanrug a Chwm-y-Glo, oherwydd pryder dros ei faint a'r cynnydd tebygol mewn traffig. Roedd swyddogion cynllunio Cyngor Gwynedd wedi argymell caniatáu'r cais, fodd bynnag.

Mynd yn erbyn argymhelliad y swyddogion wnaeth cynghorwyr Gwynedd ar 26ain Chwefror, gan wrthod y cais o 12 pleidlais i un.

Roedd Cynghorydd Llanrug, Beca Brown yn gwrthwynebu'r cynllun. Meddai: "Mae cymuned Llanrug a'r cylch yn falch iawn o'r busnesau lleol sydd gennym, sydd yn cynnwys nifer dda o feysydd carafannau. Mae peryg y byddai datblygu 39 caban gwyliau yn tanseilio y busnesau lleol rheiny, sydd yn aml yn fusnesau teuluol. Busnesau bach lleol yw asgwrn cefn economi cefn gwlad Cymru gan fod y perchnogion yn byw yma, yn gwario arian yma ac felly yn cadw'r budd yn lleol. Mi fyddwn i'n cefnogi gweld y gwesty yn ail agor – ond nid fel rhan o ddatblygiad ar y raddfa yma."

Roedd Cynghorydd Cwm-y-Glo, Berwyn Parry Jones o'r un farn, dywedodd "nad oedd y raddfa yn briodol" a bod y cais fel ag yr oedd "yn groes i rai o bolisïau'r cyngor".

Roedd Seiont Manor wedi bod yn cyflogi tua 35 o bobl, tan i'r gwesty gau yn 2020. Dywedodd y datblygwr, Caernarfon Properties Ltd y byddai rhwng 20 a 30 swydd llawn amser yn cael eu creu o'r datblygiad newydd a na fyddai ailagor y gwesty gyda'r nifer presennol o ystafelloedd yn opsiwn hyfyw.

Fodd bynnag, mynegodd cynghorwyr Gwynedd farn glir y gallai maint y datblygiad fod yn niweidiol i'r ardal ac y byddai'n or-ddatblygiad.

## Yn y rhifyn hwn:


- Hanes Fferyllwyr Llanberis - tud 20
- Y ddraig goch Gymraeg - tud 21
- Casglu Stori'r Tir - tud 21
- Nodiadau Natur - tud 30
- Darbi leol Llanberis v Llanrug - tud 32


21



32



Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

### SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
** Swydd y golygydd yn wag ar hyn o bryd

**Golygydd yr Ifanc**
** Swydd y golygydd yn wag ar hyn o bryd

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

### GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant:**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

## Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

## Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£50 I gofio yn annwyl iawn am y teulu a gollwyd, gan Goronwy Lewis

£20 er cof am Goronwy Morris, Cefn Rhyddallt, Llanrug, gan y teulu.

£10 Mair Davies, Tal y Cae, Tregarth

## Llythyr



### Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf

Annwyl gyfeillion
Rydw i'n ysgrifennu atoch gyda phum mis yn unig i fynd i'ch gwahodd chi i gyd i ymuno â ni ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd o 3-10 Awst eleni ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

Eleni yw'r tro cyntaf i'r Eisteddfod gael ei chynnal yn ein hardal ni ers 1956, ac rydyn ni'n benderfynol o sicrhau ei bod yn ŵyl gyfeillgar a chroesawgar sy'n ddathliad o'r cyfraniad enfawr mae'r tri chwm wedi'i wneud i Gymru a'n diwylliant dros y blynyddoedd.

Yn wir, mae cysylltiad ein hardal â'r Eisteddfod yn eithriadol o gryf, gan mai yn Aberdâr y cynhaliwyd yr Eisteddfod fodern gyntaf yn 1861, ac rydyn ni'n eithriadol o falch o'r cysylltiad pwysig hwn gyda'r Brifwyl. Rydyn ni hefyd yn ymfalchïo yn y rôl flaengar a chwaraeodd ein hardal wrth sicrhau a datblygu addysg Gymraeg, ac mae cynnal yr Eisteddfod yn lleol yn gyfle i ni ddathlu hyn ar draws ein cymoedd.

Erbyn hyn, mae stondinau ar gael a'r maes carafanau'n prysur lenwi, a'r dyddiadau cau ar gyfer ein cystadlaethau cyfansoddi'n agosáu. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am ein rhaglenni'n fuan, gyda phopeth yn cael ei gyhoeddi'n derfynol wrth i ni ym mis Mehefin ddathlu mai 50 diwrnod yn unig fydd i fynd tan yr Eisteddfod.

Rydyn ni'n codi ymwybyddiaeth a chodi arian ers misoedd lawer, ac mae'r cyfnod o gyni ariannol a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith fawr ar hyn, yn arbennig yn ddiweddar. Felly, wrth eich gwahodd chi i ymuno â ni am yr wythnos eleni, hoffwn hefyd eich gwahodd i'n helpu ni i gyrraedd y nod, er mwyn sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yn ein hardal ni.

Mae cyfle o hyd i gynnig gwobr, sydd, wrth gwrs yn ffordd ardderchog o anrhydeddu neu gofio am rywun sy'n annwyl i chi, neu sydd wedi gwneud cyfraniad mawr i faes neu gelfyddyd. Gellir gwneud hyn ar-lein ar wefan yr Eisteddfod, gyda'r holl broses yn hawdd a syml. Gallwch hefyd gyfrannu i'r Gronfa Leol drwy ddolen ar dudalen 2024 ar ein gwefan, ac eto, mae'n ffordd hawdd o'n cefnogi ni yma yn ardal Rhondda Cynon Taf.

Gallwch hefyd anfon siec yn daladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru at Oriel Hughes, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU, neu dalu drwy BACS. Manylion y cyfrif yw HSBC Eisteddfod Genedlaethol Cymru | Cod didoli: 40-16-13 | Rhif y cyfrif: 61455613, ac yna anfonwch ebost at oriel@eisteddfod.cymru i gadarnhau popeth fel ein bod yn gallu datgan ein gwerthfawrogiad a nodi pob cyfraniad dros £50 yn y Rhaglen Swyddogol eleni.

Rwy'n mawr obeithio y gallwch ymuno â ni ym Mhontypridd ym mis Awst, a diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth i ni fel tîm dros y misoedd diwethaf. Rydyn ni'n gofyn yn garedig i chi am eich cefnogaeth un tro olaf er mwyn i ni gael sicrhau ei bod hi'n wythnos ac Eisteddfod i'w chofio a'i thrysori yma yn Rhondda Cynon Taf eleni.

Gyda diolch,

**Helen Prosser**
**Cadeirydd Pwyllgor Gwaith,**
**Eisteddfod Genedlaethol**
**Rhondda Cynon Taf**



## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mai | 12 Ebrill | 26 Ebrill |
| Mehefin | 10 Mai | 24 Mai |
| Gorffennaf | 14 Mehefin | 28 Mehefin |

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Roxie:** Yr enw a roddwyd i'r model Lego mwyaf yn y byd. Mae'n sefyll dros 30 troedfedd o uchder ym Mharc Legoland Windsor, a gellir ei weld o bob rhan o'r parc.
- **Gardd:** Mae Gardd Fotanegol Genedlaethol Chile bron wedi ei difetha'n llwyr wedi i dân rwygo trwy'r ardal a lladd bron i 150 o bobl. Roedd yr ardd wedi ei sefydlu dros ganrif yn ôl yn ninas Vina del Mar. Mae cymorth yn dylifo i mewn o wahanol wledydd y byd i geisio adfer y gwahanol blanhigion a ddifrodwyd.
- **Dathlu**: Mae darnau 50 ceiniog newydd wedi eu bathu i ddathlu 200 mlynedd o fodolaeth y Sefydliad Bad Achub (RNLI).
- **Ceir:** Adroddwyd fod dros filiwn o gerbydau batri trydan wedi eu cofrestru ym Mhrydain bellach.
- **Gafr:** Mae Alan, gafr bum mlwydd oed yn ymddeol. Ers pedair blynedd mae wedi teithio o amgylch pentref Sibford Ferris, Swydd Rhydychen, yn danfon wyau i gwsmeriaid. Mae hefyd wedi bod yn ymwelydd cyson a phoblogaidd gyda phlant yr ysgol gynradd leol. Ar hyn o bryd mae gafr ieuengach – Boris – yn cael hyfforddiant yn y gwaith.
- **Oscar:** Dyna enw mochyn gwyllt amddifad a ddarganfuwyd mewn coedwig yng Ngwlad Belg. Mae'r cwpl a'i darganfu yn ei gadw yn eu cartref, ac mae'r porchell bychan wedi tyfu bellach nes ei fod yn pwyso dros 80 cilogram.
- **Teigr:** Cofnodwyd y teigr gwyllt olaf yn Cambodia yn 2007. Bellach mae gobaith y bydd teigrod unwaith eto i'w gweld yng nghoedwigoedd y wlad yn dilyn 'mewnforio' teigr gwrywaidd a thair o deigrod benywaidd o India. Bydd 410 o gamerau'n cael eu gosod fesul cilomedr ym mynyddoedd Cardamon i gadw golwg ar eu symudiadau.
- **Priodi:** Mae cyfraith gwlad Groeg bellach yn caniatau i gyplau o'r un rhyw i briodi, a hynny er fod Eglwys Uniongred Groeg yn gwrthwynebu'n chwyrn.
- **Specsavers**: Y cwmni yn dathlu ei ben-blwydd yn 40 oed, a hynny wedi iddo gael ei sefydlu mewn llofft yng nghartref y perchnogion. Mae dros 2,500 o ganghennau led-led y byd bellach.
- **Sglefrio**: Y 'Ddeuawd Aur' Torvil a Dean yn cyhoeddi eu hymddeoliad yn 2025, dros 40 mlynedd wedi ennill y fedal aur gyda sgôr berffaith o 6 gan bob un o'r 12 beirniad yng Ngemau Olympaidd Sarajevo yn 1984.
- **Genedigaethau**: Mae'r gyfradd genedigaethau yn China ar gynnydd gydag 20% yn fwy o fabanod wedi eu geni yn nwyrain y wlad. Ond stori wahanol sydd yn Ne Korea, gyda'r gyfradd yn disgyn i lai nac 1%.
- **Iaith:** Mae athrawes sy'n fam ifanc yn Ne Affrica yn cynhyrchu fideos i geisio hybu'r defnydd o ieithoedd y Zulu a Xhosa. Saesneg yw'r iaith fwyafrifol yno, a hynny oherwydd y pwyslais ar ei dysgu i "ddod ymlaen yn y byd". Mae bellach dros 150,000 yn dilyn y fideos iaith wedi i lawer o rieni sylweddoli nad oedd eu plant yn defnyddio fawr ddim ar eu hiethoedd brodorol.
- **Ynys**: O'r 25ain o Fawrth roedd Ynys Farne ar agor i'r cyhoedd yn dilyn ei chau ers 2022 oherwydd ffliw adar. Ond mae'r ynys llai – Staple – yn parhau ar gau.
- **Darlun:** Mae darlun o'r enw *'Sunday Afternoon'* gan L.S. Lowry wedi ei arddangos yn Christie's Llundain gydol y mis. Ni fu erioed ar gael i'w weld gan y cyhoedd o'r blaen, ac yn ystod mis Ebrill bydd yn cael ei werthu mewn ocsiwn. Amcangyfrifir ei fod yn werth rhwng £4 miliwn a £6 miliwn.
- **Gwleidydd**: Mae Heather Woodbridge yn 29 mlwydd oed, a hi yw'r arweinydd ieuengaf erioed ar unrhyw awdurdod lleol yn yr Alban. Fe'i hetholwyd i arwain Cyngor Ynysoedd Erch, a hi hefyd yw'r ferch gyntaf i'w hethol fel arweinydd y cyngor hwnnw.
- **Balŵn**: Oherwydd cyfyngiadau ariannol mae'r Fiesta Ryngwladol Balwnau a gynhelir ym Mryste wedi ei chwtogi o bedwar i dri diwrnod eleni.
- **Trethu amynedd**: Adroddwyd fod cwsmeriaid yn gorfod disgwyl 16 munud ar gyfartaledd i gael ateb pan yn ffonio Adran 'HM Rvenue and Customs'.
- **Llygredd**: Cyhoeddwyd mai Hanoi, prifddinas Fietnam yw'r ddinas fwyaf llygredig yn y byd.

## Eich barn ar Gynllun Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd

Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Cynefin, ac Adra yn cyd-weithio i dreialu polisïau newydd i reoli'r nifer o ail gartrefi a llety tymor byr yng Ngwynedd, ac i gynorthwyo pobl i brynu neu rentu tŷ yn eu hardal leol. Mae'r Llywodraeth wedi comisiynu gwerthusiad i ymchwilio i ba mor effeithiol a pherthnasol yw'r polisïau newydd yma. Cam cyntaf y gwerthusiad yw gofyn i drigolion Gwynedd i lenwi arolwg am ail gartrefi, tai fforddiadwy, a'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Mae croeso i bob oedolyn gymryd rhan, ond rydym yn arbennig o awyddus i glywed oddi wrth bobl rhwng 18 a 35 oed. Os ydych am gyfrannu eich barn, byddem yn ddiolchgar os allech chi gwblhau'r arolwg erbyn y 12fed o Ebrill. Diolch i bawb am gymryd yr amser i gefnogi'r ymchwil!

Dyma'r linc i'r arolwg: https://forms.office.com/e/ZBaMTiLHhr

Dyma côd QR i'r arolwg:

Premier

SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD
MD Caravans
MCEA

Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

# DEINIOLEN

**Prentisiaeth Cylch Meithrin Deiniolen**
Mae'r Cylch Meithrin yn chwilio am berson ymroddgar, cydwybodol, brwdfrydig a chyfeillgar i ymuno â'n tîm. Rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg neu yn siaradwr newydd sydd wedi cyrraedd lefel uchel yn y Gymraeg. I ddechrau cyn gynted â phosibl. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r pwyllgor. cylchdeiniolen@outlook.com

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu Kathleen Davies a hunodd yn dawel yng nghwmni ei theulu, yn 94 mlwydd oed, o 9 Hafod Oleu, Deiniolen.

Priod ffyddlon y diweddar Gordon Davies, mam gariadus Barry, Malcolm, Carolyn, Hilary a'r diweddar Roy. Nain a hen nain annwyl. Colled enfawr a thorcalonnus i'w theulu a'i ffrindiau oll.

**Merched y Wawr**
Cafwyd noson hwyliog ac addysgol ar 19eg Chwefror o dan deitl Her y Siop Elusen. Y sialens oedd i'r aelodau ymgynnull gan ddangos eu trysorau o rêls dillad siopau elusen neu wefannau dillad ail law. Roedd trawsdoriad eang, diddorol a hynod o steilish gan yr aelodau gyda ambell un wedi cael bargen anhygoel. Cafwyd trafodaeth ddifyr am y byd ffasiwn a siopau'r stryd fawr a sut effaith mae cynhyrchu dillad rhad ar raddfa fawr yn ei gael ar yr amgylchedd.













**Meinciau a choed Rhyd Fadog**
Dyma luniau gan Brosiect Natur Llanddeiniolen o goed wedi eu plannu a meinciau wedi cael eu gosod yn Rhyd Fadog yn ddiweddar.

Diolch i Angharad Owen am ei gwaith gyda phlant Ysgol Gwaun Gynfi.




**Caban Cynfi**
Dyma lun o rai o aelodau Pwyllgor Caban Cynfi sydd wedi llwyddo i ddenu arian grant i greu gofod cymunedol newydd i drigolion Deiniolen a'r cylch. Llwyddwyd i ddenu £126,405 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol trwy raglen Dyfodol Gwledig a £79,872 gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Bydd y gwaith atgyweirio ac adeiladu yn cychwyn yn fuan, a gobeithir y bydd y safle'n barod erbyn haf 2024. Gallwch ddarllen yr hanes yn llawn yn rhifyn mis Mawrth yr Eco.

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch cabancynfi@yahoo.com (mailto:cabancynfi@yahoo.com) neu ymwelwch â'r dudalen Facebook – https://www.facebook.com/CabanCynfi (https://www.facebook.com/CabanCynfi)

Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa | Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

# CAEATHRO

**Capel**
Ar y 7fed o Ebrill bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Arwel Williams, i gychwyn am 2.00pm. Ar y 21ain o Ebrill bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, hefyd i gychwyn am 2.00pm.

**Penblwydd Arbennig**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Evena Hughes (7 Erw Wen) wedi iddi ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar – gobeithio i chi fwynhau'r holl ddathlu.

# PENISARWAUN

**Cydymdeimlad**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, yn 87 mlwydd oed, o Trem Gynfi, collasom un o hogia'r pentref sef Ken – gŵr cariadus Glenys, tad arbennig Carys a Gwynfryn, tad yng nghyfraith croesawus Barri, a thaid balch a charedig Dylan, Carwyn a Noah. Colled trist i'w deulu a'i ffrindiau oll.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am y rhoddion hael er cof am Ken tuag at elusen Awyr Las, Ward Dementia Ysbyty Gwynedd, 'Tŷ ni' a Ward Alaw.

Ein cydymdeimlad llwyraf â chwi fel teulu.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Pnawn Gwener, 1af Mawrth, am 1.30pm cynhaliwyd orig werthfawr i 'Ddathlu Gŵyl ein Nawddsant' yn y Neuadd Gymuned. Bu'n bnawn hynod o lwyddiannus gyda'r Neuadd dan ei sang. Mwynhawyd eitemau clodwiw gan blant yr Ysgol gydag eitemau arbennig gan Heledd a Myfi. Llongyferchir Myfi ar ddod i'r brig yng nghystadleuaeth Unawd Gitâr Blwyddyn 6 ac Iau yn Eisteddfod yr Urdd Eryri – bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Rhanbarth Eryri yn Meifod ym mis Mai – pob lwc i ti Myfi!

Dymunir ddiolch i'r Pennaeth a'r Staff am eitemau clodwiw y plant – pob plentyn yn cael cyfle i ymddangos ar y llwyfan gydag eitemau gwych am ein Nawddsant. Diolchir hefyd i aelodau'r Pwyllgor Neuadd am drefnu p'nawn arbennig o gymdeithasol gyda phaned, bara brith a theisennau cri a chyfle i sgwrsio. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth ac erfynnir am fwy o aelodau gan fod y weithgaredd o fudd mawr tuag at y gost o redeg y Neuadd. Edrychir ymlaen at ddod at ein gilydd eto ym mis Mai ar gyfer "Miri Mai". Bydd cyfle i gael hwyl a sbri wrth gystadlu mewn rasus i wahanol oedrannau a chyfle i'r plant gael paratoi gemau a byrddau gwerthu. Bydd paned a chyfle i gymdeithasu a dod i adnabod ein gilydd.

**Eisteddfod Bentref 2024**
Cynhelir yr Eisteddfod ym mis Gorffennaf gan obeithio y ceir yr un gefnogaeth gref ag a gawsom y llynedd. Bu cystadlu brwd o'r oedran cyn-ysgol i'r oedolion felly dewch i ymuno yn yr hwyl!

**Gwellhad**
Anfonir ein cofion anwylaf at bawb ohonoch sy'n sâl gan ddymuno adferiad buan. Ein cofion at Leslie, Tegid, Dilys, Myfanwy a Dic.

**Prosiect Ardal Gymunedol**
Ar ôl plannu bylbiau ym Mhenisarwaun llynedd, mae criw bach ohonom nawr yn awyddus i ddefnyddio'r tir drws nesa i Llys y Gwynt. Mae Adra wedi cytuno y gellir ei ddefnyddio fel ardal cymunedol ac rydym yn awyddus i greu gofod ymlaciol y gellir ei ddefnyddio gan bawb. Rydym angen mwy o bobol i gymryd rhan, rhannu syniadau, egni, gwybodaeth a pharodrwydd i helpu gyda'r gwaith.

Rydym yn y cyfnod hel syniadau a gwneud trefniadau ar y funud. Os hoffech fod yn rhan o'r prosiect, plis cysylltwch â Stephen Wilson, Angharad Owen neu Katy Williams trwy grŵp Facebook y pentref – "Penisarwaun (Pentre Ni)".




**Arddangosfa Hen Luniau**
Ar y cyd â Menter Fachwen, cynhelir noson arbennig o Arddangosfa Hen Luniau yn y pentref ar 30ain Ebrill am 7.00pm. Bydd y noson yn cychwyn gyda sgwrs fer am hanes y pentref gan Menter Fachwen. Mae mynediad am ddim ond byddwn yn croesawu unrhyw gyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw'r Neuadd. Mae hefyd croeso i chi ddod â lluniau gyda chi i'w dangos. Dewch yn llu!

**EGLWYS SANTES HELEN**
**Gwasanaethau'r Eglwys**
Gwasanaeth Chweched Sul y Grawys (Sul y Blodau)

24ain Mawrth 11.00am Yr Offeren Sanctaidd

28ain Mawrth (dydd Iau Cablyd) Dadorchuddir yr Allor

Gwasanaeth GWENER Y GROGLITH

29ain Mawrth 2.00pm, 'Myfyrdod Dydd Gwener y Groglith'

30ain Mawrth 10.00am, Addurno yr Eglwys ar gyfer y Pasg

**Sul Y Pasg**
31ain Mawrth 11.00am, Yr Offeren Sanctaidd

Gwasanaethir gan yr Archddiacon Canon David Parry

**Gwasanaethau Ebrill**
7fed 11.00am, Boreol Weddi
14eg 11.00am, Yr Offeren Sanctaidd
21ain 11.00am, Yr Offeren Sanctaidd
28ain 11.00am, Yr Offeren Sanctaidd
Gwasanaethir gan yr Archddiacon Canon David Parry

**EGLWYS SANT DEINIOL, LLANDDEINIOLEN**
7fed Ebrill 3.00pm, Yr Offeren Sanctaidd






**Rygbi Rhyngwladol**
Bu cryn gyffro yn Cae Eboni, Penisarwaun yn ystod dechrau mis Mawrth.

Enillodd Joseff Meredydd Jones, ŵyr Carys ac Arwel Jones a mab Rhiannydd a Dafydd Meredydd, Caerdydd, ei gap cyntaf i dîm rygbi dan 18 oed Cymru a hynny yn erbyn yr Alban. Llwyddodd y tîm i drechu'r Alban o 40 i10 gyda Joseff yn sgorio dau gais. Ymhen wythnos daeth tîm Cymru wyneb yn wyneb a thîm cyhyrog Iwerddon ar gae Coleg Terenure Dulyn RFC. Ar ôl gem eithriadol o gorfforol llwyddodd y bechgyn i drechu'r Gwyddelod o 27 i 19 gyda Joseff yn sgorio'r cais i ennill y gêm. Nod Joseff yw cael ei ddewis unwaith yn rhagor i gynrychioli ei wlad dros gyfnod y Pasg yn Parma, yr Eidal yng ngŵyl Rygbi dan 18 oed Ewrop. Eu gwrthwynebwyr yn y twrnament fydd Lloegr, Portiwgal a Ffrainc a bydd, mi fydd taid a nain yno ymysg aelodau eraill o'r teulu, pob lwc iddynt.

Prif gefnogwr Joseff yw ei chwaer, Megan. Ond mae Megan eisoes wedi cynrychioli ei gwlad ers tair blynedd yn nhîm Rygbi Cyffwrdd Cymru. Mae ganddi dros ugain o gapiau yn y gamp ryfeddol hon. Nid yw'n gêm mor gorfforol â rygbi, ond mae hi'n gêm eithriadol o gyflym a chyfrwys. Mae Rygbi Cyffwrdd ar gynnydd erbyn hyn ac mae gobaith y bydd yn cael ei gynnwys ym mhrif gystadlaethau chwaraeon y byd yn y dyfodol. Mae Megan yng ngharfan Cymru eto'r flwyddyn hon ac yn cystadlu yng nghwpan rygbi Cyffwrdd y Byd a fydd yn cael ei chynnal yn Nottingham.

Dymuna'r Eco y gorau i'r ddau ohonynt.

# Ysgol Penisarwaun

**Taith y Cyfnod Sylfaen i'r Amgueddfa Lechi**

Yn ystod y mis diwethaf cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen fynd ar daith addysgol i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Cawsant gamu nôl mewn amser yng nghwmni 'Anti Margiad', gan helpu gyda'r diwrnod golchi, a dysgu am a defnyddio'r bwrdd sgwrio, y twb a'r doli a'r mangl i olchi a sychu'r dillad.

Yna cawsant weld, arogli a chyffwrdd gwahanol fathau o sebonau o gyfnodau gwahanol mewn hanes cyn mynd ati i greu eu pêl sebon eu hunain i fynd adref.

Diolch i'r Amgueddfa am drefnu gweithgareddau diddorol, llawn gwybodaeth ar ein cyfer. Mae'r disgyblion bob amser yn mwynhau ymweld â'r amgueddfa.








**Eisteddfod Cylch yr Urdd**

Bu'r disgyblion yn llwyddiannus yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn i bawb a gymrodd rhan, ac i Heledd am gystadlu am y tro cyntaf. Bydd y Parti Unsain yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir cyn diwedd y mis, pob hwyl iddynt. Cafodd Myfi ail ar yr unawd blwyddyn 5 a 6 yn y Cylch a bydd hithau hefyd yn mynd ymlaen i'r Sir.

Daeth Myfi yn fuddugol ar y gitâr yn yr Eisteddfod Sir offerynnol a bydd hi rwan yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod ym Meifod ym mis Mai. Pob lwc i Myfi yn Maldwyn.




**Dydd Gŵyl Dewi**



Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo mewn gwisg draddodiadol, crysau pêl-droed a rygbi neu ddillad coch neu wyrdd ar ddydd Gŵyl Dewi. Bu'r disgyblion ieuengaf yn brysur yn coginio bisgedi 'Berffro. Cafwyd dathliad ar y cyd â phwyllgor y Neuadd Gymuned a cafodd y disgyblion gyfle i berfformio i'r rhieni ac aelodau'r gymuned ehangach. Cafwyd prynhawn dymunol iawn yn y neuadd. Canodd y plant ieuengaf ddwy gân am Dewi Sant. Canodd y disgyblion hŷn y gân roeddynt wedi ei ddysgu ar gyfer prosiect "ABC of Opera" yr adroddwyd amdano yn yr Eco'r mis diwethaf sef "Pawb i Ganu'n Un."

Cawsom y fraint o glywed Heledd a Myfi yn canu'r unawdau roeddynt wedi eu canu yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar, perfformiodd Myfi ar y gitâr a chafodd y parti unsain berfformio eu cân hwy sef "Now a Ned." Daeth yr ysgol gyfan ynghyd ar y diwedd i ganu "Rwy'n Gymro, Rwy'n Gymraes" a "Hen Wlad fy Nhadau". Roedd pawb yn canu gydag angerdd ac yn falch o gael dathlu ein Cymreictod ar ddydd ein Nawddsant.





**Diwrnod y Llyfr**

Daeth pawb gan gynnwys staff a disgyblion i'r ysgol wedi eu gwisgo fel cymeriadau o lyfr ar Ddiwrnod y Llyfr eleni. Trefnwyd gweithgareddau amrywiol i hyrwyddo llyfrau yn ystod y dydd a bu'r adran Iau yn brysur yn creu eu storïau ei hunain ac yn creu llyfrau ar gyfrifiadur i'r plant ieuengach. Cafodd disgyblion yr Adran Iau gymryd rhan mewn gweithdy ar-lein i ddysgu mwy am raglenni cyfrifiadurol addas hefyd. Cafodd pawb lawer iawn o hwyl yn creu a phob un wedi mwynhau darllen rhannau o'i hoff lyfrau.


Diolch i bawb am fynd i'r ffasiwn drafferth.

# CHWILAIR MIS EBRILL - GWLEDYDD AFFRICA

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | B | G | I | W | Ch | D | U | N | D | R | B | S | Ng | L |
| S | B | A | C | A | B | E | Th | I | O | P | I | A | E | I |
| S | O | M | A | L | I | A | R | Ll | Ff | E | B | R | C | G |
| A | T | B | M | V | Ch | Ff | T | L | E | S | O | T | H | O |
| D | S | I | E | D | A | R | U | Ch | M | E | V | A | T | S |
| U | W | A | R | F | Dd | I | D | A | B | W | N | D | R | E |
| M | A | D | O | E | T | C | W | L | I | A | A | N | O | Y |
| E | N | G | O | P | R | A | L | G | E | R | I | A | Ch | C |
| S | A | Y | N | S | N | B | I | E | S | D | Ll | G | D | H |
| T | C | E | C | G | L | Y | D | L | W | R | A | U | P | E |
| C | A | B | O | V | E | R | D | E | A | N | D | E | A | L |
| D | B | L | N | Ch | C | A | Th | B | T | I | M | G | L | L |
| N | A | Ll | G | I | P | I | E | R | I | T | R | E | A | E |
| Y | S | U | O | Ff | E | Ff | Rh | L | N | A | L | A | B | S |
| Rh | D | W | U | I | D | T | G | N | I | G | E | R | I | A |

ALGERIA
ANGOLA
BOTSWANA
CABO VERDE
CAMEROON
CONGO
DE AFFRICA
ERITREA
ESWARTINI
ETHIOPIA
GAMBIA
GHANA
LESOTHO
NIGERIA
SOMALIA
SEYCHELLES
UGANDA
YR AIFFT

**Tybed allwch chi ateb y cwestiynau canlynol:**



1. Sawl gwlad sydd yn Affrica ar hyn o bryd?
2. Pa wlad sydd â'r boblogaeth fwyaf yn Affrica?
3. Pa wlad sydd â'r boblogaeth leiaf yn Affrica?
4. Pa afon yw'r hiraf yn Affrica?
5. Pa un o wledydd Affrica sydd a chysylltiad cryf â Chymru?

Cewch yr atebion i'r chwilair a'r cwestiynau yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch fod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

## CHWILAIR MIS MAWRTH – GWLEDYDD EWROP

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | U | G | W | L | A | D | Y | R | I | Â | P | R | A | S |
| D | L | Â | F | T | W | C | R | O | A | T | I | A | N | T |
| M | D | E | I | P | S | Y | A | B | E | I | M | E | D | E |
| C | S | G | Ch | U | T | D | L | H | N | F | D | U | O | S |
| H | W | N | G | A | R | I | M | O | G | E | L | N | R | T |
| S | I | B | E | L | I | B | A | N | W | D | F | E | R | O |
| U | S | U | C | W | A | T | E | S | L | A | O | I | A | N |
| R | D | L | I | Th | U | A | N | I | A | G | N | R | D | I |
| A | I | C | M | G | E | S | Ll | M | D | R | O | W | R | A |
| L | R | Y | P | M | A | L | T | A | G | S | R | T | U | S |
| E | D | S | R | Th | C | W | R | L | R | E | W | B | F | N |
| B | I | T | W | U | P | Â | I | H | O | L | Y | S | E | E |
| S | M | E | S | R | O | T | A | P | E | G | F | A | T | I |
| Y | R | E | I | D | A | L | M | W | G | T | C | M | B | Dd |
| D | I | N | A | S | G | R | N | Ff | I | N | D | I | R | E |

ANDORRA
AWSTRIA
BELARUS
CROATIA
ESTONIA
FFINDIR
GWLAD GROEG
GWLAD YR IÂ
HOLY SEE
HWNGARI
LITHUANIA
MALTA
NORWY
RWSIA
SWEDEN
SWISDIR
YR ALMAEN
YR EIDAL

**Dyma'r atebion i'r cwestiynau ofynwyd yn rhifyn mis Mawrth:**

1. Mae **44 gwlad** yn Ewrop ar hyn o bryd?
2. **Rwsia** yw'r wlad sydd â'r **boblogaeth fwyaf** yn Ewrop? **(144,444,359 ar y 7fed o Chwefror)**
3. **Holy See** yw'r wlad sydd â'r **boblogaeth leiaf** yn Ewrop? **(523 ar y 7fed o Chwefror)**
4. **27 o wledydd** Ewrop sy'n **aelodau o'r Undeb Ewropeaidd** ar hyn o bryd?







**Teyrnged i 'Eifion, Cefn Gwyn'.**
Ym marwolaeth Eifion Williams, Cefn Gwyn, mae'n hardal wedi colli gwir gymeriad. Dyn y pridd a dyn y praidd. Dyn parod ei sgwrs a hoffai gofio 'yr hen amser' yn aml. Ie, dyn y gymdeithas, ond yn bennaf dyn yr aelwyd a theulu oedd Eifion. Doedd dim gwell, wedi diwrnod amrywiol o waith, nag eistedd yn y gadair gornel yn gwylio gêm ar y teledu. Ar hyd y daith, bu Ceinwen wrth ei ochr, yn graig ddibynadwy. Hwy'r Sion a Sian o natur.

'Yn ei dŷ, brenin o dad,
Di-guro led ei gariad.'

Roedd gwreiddiau Eifion yn y 'Rallt, Aber, ei hoff gynefin hyd ei oes. Oddi yno symudodd y teulu i Tyddyn Bach, Caeathro. Ag Eifion yn 16 oed, symudodd y teulu i ffermio Cefn Gwyn. Yn Ysgol Caernarfon, roedd y ffwtbol yn cael gryn sylw. Roedd Eifion yn bêl-droediwr safonol i dimau Deiniolen a Mountain Rangers. Trosglwyddwyd y ddawn i Dewi y mab, er i gyfeiriad y bêl siap ŵy aeth Huw. Daw gwên wrth ddwyn i gof yr achlysur pan wynebodd Eifion a Dewi ei gilydd mewn cystadleuaeth Carnifal Bethel. Goronwy Glan Gors wedi hel tîm i herio'r 'llafnau ifanc'. Tîm Dewi yn llawn 'talent ifanc' yn eu kit cyflawn. Tîm Glan Gors - yn cynnwys Eifion – yn eu dillad gwaith ac oglau gwaith, bib a brace a sgidiau hoelion mawr. Dim cyfaddawdu. Nid wyf yn cofio'r sgôr na'r *'casualties'*, ond cafodd y dorf adloniant y noson honno. Yna'r balchder ar wyneb Eifion pan gyflwynais ddarlun o Eifion a Dewi yn dal yn dynn yn y Junior Cup wedi i Fethel guro Port yn y Ffeinal. Fel tad a thaid, ymfalchïai Eifion yn ei deulu. Cefnogol i'r carn, a rhyw addfwynder pan soniai am 'Dewi 'cw' a Huw 'cw'. Pa ŵyr neu wyres na ymfalchïai yn y wên groesawgar mor nodweddiadol o 'taid Eifion'.

Ond amaeth oedd yn y gwythiennau. Chwith meddwl na fydd Eifion a Huw yn fy mhasio bellach yn y fan wen hyd Lôn Tre' Gof ar eu ffordd i neu'n ôl o rhyw dasg. Bib-bib a chodi llaw. Fel pob amaethwr, roedd rhai agweddau o'r gwaith aml-haenog yn gryfach ei atyniad. O sefydlu Bridfa Cefn Gwyn, denwyd Eifion i faes wrth ei fodd. Roedd llygaid ganddo at y merlod a'r cobiau, a dawn i'w meithrin. Roedd y llu cardiau cydymdeimlo gan ddilynwyr y grefft hon yn dyst i hynny. Daeth ei awr fawr pan gafodd feirniadu yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Eifion yn ei seithfed nef. Sawl gwaith gafodd ei herian wrth gyfeirio at ei ddewis wisg y tro hwnnw – y gôt ledr i lawr at ei draed, a'r het wrth gwrs. "Roeddet ti fel Lee Van Cleef," meddwn i. "Pwy 'di hwnnw?" oedd ateb parod Eifion. Mwd, pa fwd. Hogyn bach o'r wlad ymysg y toffs. A hynny yn haeddiannol.

'Wrth frenhinol ddidoli,
Hybu wnaeth ein cobiau ni.'

Y mae i bob teulu ei olyniaeth. Tystia pobl hŷn Bethel bod Eifion mewn olyniaeth bendant o'i dad, Huw. Cymeriad o'r iawn ryw. Tynnwr coes, cof am gymeriadau. Y ddawn i ddwyn gwên i'r wyneb. Mae'r olyniaeth mewn sawl agwedd i'w gweld yn Dewi a Huw. 'Cefn Gwyn' oedd eu tad, a 'Cefn Gwyn' byddent hwythau.

Mae newidiadau mawr ar ei ffordd ym myd amaeth. Beth fuasai ymateb Eifion os gwn i? Teimlaf mai glynu at 'yr hen ffordd o fyw' fuasai Eifion. Fel Eifion, ni allwn golli amaeth a'i dylanwad ar iaith a ffordd o fyw cefn gwlad.

'Nid hagrwch, er daw deigryn;
Cofiwn a gwên, ŵr Cefn Gwyn.'
Cwsg yn dawel, Eifion. Heddwch i'w lwch.
RLLJ





**Clwb Bro**
Bron y gellid dweud fod cyfarfod mis Mawrth yn y blynyddoedd diwethaf yn uchafbwynt y tymor i aelodau'r Clwb. Dyma'r cyfarfod ble mae'r aelodau yn dathlu Gwŷl Ddewi. Fel arfer bellach, rydym yn cydrannu'r dathliad gyda phlant Ysgol Bethel. Diolch i'r Prifathro a'r staff am y gwahoddiad, ac am drefnu ystod eang o adloniant i ni'r gynulleidfa hŷn. I'r rhai o'r aelodau a gafodd eu haddysg gynradd yn yr ysgol, mae'n siŵr ei fod yn dod â llawer atgof o'u cyfnodau hwy. Fel yn ddisgwyliadwy bellach gan y disgyblion cafwyd dehongliadau o safon tra'n canu, cyd-lefaru ac offerynnol unigol. Yr oedd y wên ar wyneb y plant yn amlygu fod iddynt ddeallusrwydd o'r neges tu ôl i'r geiriau. Yr oedd disgyblaeth y 'côr mawr' i'w ryfeddu. Yr oedd y cyfeiriad yn ambell i gyfraniad at 'iaith' a 'chynefin' yn ategu mai ysgol Gymraeg naturiol yw'r ysgol hon, ac wrth gwrs, roedd y baned a'r deisen gri yn dderbyniol iawn hefyd. Yr oedd y cyfraniad ariannol gan yr aelodau tuag at goffrau'r ysgol, yn ategu eu gwerthfawrogiad o'r arlwy a roddwyd gan y plant. Arwyddocaol hefyd oedd clywed y lleisiau hŷn ac iau yn ymuno i gloi'r achlysur drwy ganu'r anthem genedlaethol. Diolch blant ac athrawon o waelod calon.

Wedi'r arlwy gelfyddydol, ymlwybrodd yr aelodau draw i Gaffi'r Bedol am ail ran y dathliad. Cyfle i sgwrsio, ac ail-ategu safon berfformiadol y plant. I fwyta cawsom gawl neu lobsgóws, bara brith a theisennau cri a the neu goffi i'w golchi i lawr. Diolch i ferched y caffi am eu croeso hwyliog arferol – ac am y lluniaeth wrth gwrs! Wrth groesawu pawb, cyfeiriodd y Llywydd, Mary Wyn Jones at ben-blwydd arbennig Maud, a hefyd i Gwyneth Roberts, Stâd Bro Eglwys fod wedi gwirioni ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf.

**Diolch**
Dymuna Carol, Janice, Enid a theulu'r ddiweddar Gwyneth Price, 33 Bro Eglwys, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl ac arbennig. Gwerthfawrogwyd yr holl ymweliadau, cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael at Gymdeithas Alzheimer. Diolch i'r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth urddasol, cyfraniad Y Parchedig Gerwyn Roberts, Eglwysbach ac i Mrs Eleri Bean, yr organyddes. Diolch i Meinir a staff Ymgymerwyr Dylan Griffith, Penisarwaun am eu trefniadau trylwyr. Diolch o waelod calon i bawb.

**Llongyfarchiadau**
Dyna'n dymuniad i Maud Williams, Deulyn ar ddathliad ei phen-blwydd yn 90 oed ddechrau Mawrth. Gall Deiniolen a Bethel hawlio Maud, ac mae'r ddau bentref yn agos at ei chalon. Bydd rhai ym Methel yn ei chofio yn cadw'r Post. 'Rwy'n siŵr fod Maud eisiau i mi ddiolch am y llu cyfarchion llafar, y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd. Mae tystiolaeth yr 'ardd' o flodau a dderbyniodd yn siarad cyfrolau. Gall lawer dystio i'r gofal arbennig a roddai Maud a Huw i'w gardd dros y blynyddoedd. Ymlaen rŵan Maud at y telegram!

**Cân i Gymru**
Llongyfarchiadau i Sion Emlyn o Seion am ei berfformiad o'r gân Cymru'n y Cymylau yn y gystadleuaeth ddiweddar. Gyda 118 wedi ymgeisio am y Tlws, roedd yn gamp gan Sion i gyrraedd rhestr yr wyth gân orau. Yn ôl adroddiadau roedd gwên arbennig ar wyneb 'nain Myrna' o weld y perfformiad. Gobeithio bydd y trefnwyr yn gallu cael trefn ar y system 'ffonio pleidleisiau' erbyn flwyddyn nesaf. Mae'n annheg i'r cystadleuwyr sy'n gweithio'n galed i gyfansoddi i'r safon uchel, i'r broblem flynyddol hon bron iawn amharu ar wledd o gerddoriaeth gyfoes.

**Clwb Bowlio Mat Byr Bethel**
Mae'r tymor cystadlu yng Nghynghrair Gwynedd yn prysur ddod i ben am eleni. Digon cymysglyd fu'r canlyniadau, gyda'r perfformiadau cartref mwy llwyddiannus nag oddi cartref. Y fantais o ddehongli eich 'mat' eich hun yw hi yn aml. Wedi dweud hynny, mae ysbryd da ymysg yr aelodau a chânt gryn bleser yn y cystadlu a'r cymdeithasu. Mae pob tymor yn magu mwy o brofiad. Oherwydd cyfyngder lle ar hyn o bryd, mae'r rhif aelodaeth yn llawn.

Os oes rhywun â diddordeb mewn ymaelodi yna gellir cysylltu ag Idris Rees, 6 Stâd y Rhôs.

**Oedfaon Mis Ebrill**

Capel Bethel : 7/4 Donald Pritchard; 14/4 Parch. Gwyndaf Jones; 21/4 Parch. R.E. Hughes.

Capel Cysegr : 7/4 Parch. R.O.Jones; 14/4 Gweinidog 21/4; a 28/4 i'w hysbysu.

**Ysgol Sul Y Cysegr**

Daeth cynulleidfa deilwng draw i gefnogi y plant yn eu cyflwyniad ar gyfer oedfa benodol Sul y Fam. Cafwyd amrywiaeth o eitemau, a hynny wedi ei gyflwyno a gwên ar eu hwynebau. Braf ar ddiwedd yr oedfa oedd gweld y plant yn cyflwyno tusw o gennin pedr i'w mamau oedd yn y gynulleidfa. Diolch i Anti Myfanwy ac Anti Menna am baratoi y plant, ac i Deilwen Hughes am ei chymorth wrth yr offeryn. Unwaith yn rhagor, diolch i'r rhieni am ddanfon eu plant i'r Ysgol Sul. Mae'r cynnydd mewn rhifau - yn wythnosol bron - yn codi calon ffyddloniaid y Capel. Dewch hen ac ieuanc dewch....

**Neuadd Goffa Bethel**

Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am y flwyddyn 2023.

1af = £25   2ail = £15   3ydd = £10



**Ionawr**
1af – Gareth Hughes (107)  2ail – Pat Millican (92)  3ydd – Sulwen Thomas (62)
**Chwefror**
1af – Bill Vize (66)  2ail – Anita Owen (13)  3ydd – Jemma Orlik Jones (76)
**Mawrth**
1af –Alun Foulkes (52)  2ail – Pete Gaffey (3)  3ydd – Anne Elis (44)
**Ebrill**
1af – Donna Evans (14)  2ail – Anna, Gwynedd Skips (115)  3ydd – Tony Graham (53)
**Mai**
1af – Emyr Jones (100)  2ail – Sulwen Thomas (62)  3ydd – Lliwen Williams (19)
**Mehefin**
1af – Sharon Owen (98)  2ail – Falmai Owen (7)  3ydd – Mair Read (33)
**Gorffennaf**
1af – Menna Coles (93)  2ail – Nia Griffith (20)  3ydd – Joyce Gaffey (70)
**Awst**
1af – Angharad a Berwyn (37)  2ail – Rhian Hughes (5)  3ydd – Olwen Jones (40)
**Medi**
1af – Susan Owen (28)  2ail – Maud Williams (89)  3ydd – Marcus Robinson (41)
**Hydref**
1af – Gwilym Lewis (51)  2ail – Iola Jones (46)  3ydd – Alun Foulkes (52)
**Tachwedd**
1af – Joyce Gaffey (70)  2ail – Rhian Hughes (5)  3ydd – Susan Owen (28)
**Rhagfyr**
1af – Gwenda Farrar (18)  2ail – Jemma Orlik Jones (76)  3ydd – Brian Davies (36)







**Adran yr Urdd**

Ar nos Wener 26ain o Ionawr daeth criw da at ei gilydd i noson gwis Dydd Miwsig Cymru ble cawsom ddysgu am rai grwpiau Cymraeg a gwrando ar eu cerddoriaeth. Diolch i Simon Thomas am ei amser i ddod atom ni.

Yna, ar 23ain Chwefror mi gawsom ni noson yng Nghaffi'r Bedol. Cawsom wylio pennod o C'mon Midffîld a chael cwis ar beth welwyd ar y rhaglen. Roedd pawb wedi mwynhau a diolch mawr i Gwenllian a Tomos am baratoi'r cwis ac am fod yn gwisfeistri arbennig. Diolch hefyd am gael cynnal y noson yn y Caffi.

Y tro nesa, ar yr 22ain o Fawrth rydym yn edrych ymlaen i groesawu Tudur Phillips atom ni i'n dysgu sut i glocsio. Mae hen edrych mlaen am hyn!

Bu nifer o aelodau yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a llongyfarchiadau mawr i Llew fydd yn mynd i'r Eisteddfod Sir gyda Llefaru Bl. 3 a 4, i Lydia fydd yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ar ôl ennill yr Unawd Pres, ac i'r ddau barti, canu a llefaru, fydd yn cystadlu ym Mhontio yn yr Eisteddfod Sir. Da iawn chi blantos a phob dymuniad da i chi!





**(parhad o Newyddion Bethel)**

**Merched y Wawr**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod ar y 14eg Chwefror, gan ein llywydd Jen Roberts. Anfonwyd ein cofion cynhesaf at Nan Rowlands sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.
Da oedd clywed fod Wil Parry, gŵr Nora, yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth.

Tynnwyd sylw at nifer o bethau oedd yng Nghofnodion Pwyllgor Rhanbarth Arfon a fu'n cyfarfod ddiwedd Ionawr.

Gofynnwyd a oedd awydd gan yr aelodau i anfon tîm os bydd cystadleuaeth Bowlio Deg yn cael ei gynnal eleni ac roedd digon o aelodau i greu beth bynnag un tîm.

Mae Baner Merched Y Wawr Rhanbarth Arfon yn cael ei ail chreu am fod yr un cyfredol, a grëwyd yn 1992, wedi dyddio. Gwelwyd yr enw 'Bethel' fydd ar y faner newydd a diolchwyd i Mary Wyn Jones am ei gwnïo cywrain.

Cawsom groesawu un o 'Selebs' y pentre atom, sef Kelly O'Donnell a gafodd ei dewis fel un o'r pump arweinydd ar y gyfres ddiwethaf o 'Ffit Cymru'. Roedd yn ddidwyll iawn wrth drafod ei pherthynas eithaf 'toxic' efo bwyd a'i thueddiad i or- fwyta, a bod hyn wedi bod yn batrwm ers yn ifanc. Er mai hi oedd yr arweinydd efo lleiaf o bwysau i'w golli, 'doedd hyn ddim yn golygu y byddai dilyn y cynllun yn rhwydd. Wrth ymuno â "Ffit Cymru", yr oedd yn cael cyfle i gael cyngor Dietegydd, Seicolegydd ac Arbenigwyr ffitrwydd, ond yr oedd yn teimlo mai'r gefnogaeth gan Dr Ioan y Seicolegydd oedd wedi ei chyffwrdd fwyaf.

Fel rhan o'r rhaglen y mae'r arweinwyr yn gorfod dilyn rhaglen fwyta arbennig, ac yn cymryd rhan fel tîm mewn tasgau corfforol arbennig. Roedd Kelly wrth ei bodd efo rhain, er hyn yr oedd y dasg ' arfodira' yn hynod o heriol, ond fe lwyddodd yn y diwedd i neidio i mewn i'r môr o uchder !



Tydi hi ddim wedi bod yn daith hawdd, ac er bod cadw'n ffit yn dod yn eithaf naturiol iddi, mae hi'n dal i fod yn ymwybodol o'i thueddiad i fwyta'n ddifeddwl. Mae hi'n hynod o falch ei bod wedi cymryd rhan yn y rhaglen, gan ei bod yn llawer mwy hapus ac yn iachach, a bod y teulu i gyd wedi elwa. Dalier ati Kelly a llongyfarchiadau ar yr hyn yr wyt wedi ei gyflawni hyd yma.

Diolchwyd gan Gwenan Roberts. Gwnaed y baned gan Mair Read a Cecile Roberts ac enillydd y raffl oedd Ceridwen Williams.



**Caffi'r Bedol**
Sawl gwaith rydym wedi sylwi ein bod yn brin o fara. O hyn ymlaen, yn lle rhuthro lawr i Dre dim ond i nôl torth, yna gallwch brynu bara yn y caffi. Bara siop Carlton, Caernarfon yw'r cynnyrch, yn fara neu roliau. Rhowch eich gofyn i ferched y caffi a bydd yno i'w gael. Mae'r merched hefyd yn pendroni os fydd cyfle i werthu llefrith a phapurau newydd yn y caffi. Eto, eitemau yr ydym yn mynd i Gaernarfon neu Lanrug yn unswydd ar eu cyfer. Dipyn o arbediad dros gyfnod o amser. Mor aml y clywn mewn sgyrsiau pobl Bethel – "mae eisiau siop yma." Wel, ai dyma ryw egin cychwynnol.

# Prosiect arloesol yn helpu cwmnïau Gwynedd i fynd yn ddigidol

Mae cynllun newydd arloesol wedi cael ei lansio er mwyn helpu cwmnïau yng Ngwynedd i fynd yn ddigidol, ceisio atal diboblogi cefn gwlad a hybu economi'r sir.

Mae'r cytundeb i redeg prosiect Dyfodol Digidol wedi'i ennill gan Lafan, cwmni ymgynghori sy'n tyfu'n gyflym ac a fydd yn darparu sesiynau mentora a hyfforddiant.

Mae prosiect Cyngor Gwynedd wedi derbyn arian gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd ac mae ar gael am ddim i unrhyw fusnesau sydd wedi'u lleoli yn y sir.

Mae'n adeiladu ar lwyddiant prosiect tebyg y llynedd, gan weithio gyda chwmnïau yn y diwydiannau lletygarwch a bwyd a diod, ond mae'r fersiwn newydd wedi ehangu ei gwmpas ac mae'n agored i gwmnïau o unrhyw faint ym mhob sector.

Bydd cwmnïau sy'n cofrestru yn cael tair sesiwn fentora un-i-un gan arbenigwr digidol a byddant yn gallu dewis o blith 30 o weithdai hyfforddi gwahanol a fydd yn cael eu cynnal ar-lein yn bennaf.

Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu gan Lafan mewn partneriaeth â'r ganolfan arloesi M-Sparc, y cynllunwyr gwefannau Gwe Cambrian a'r cwmni marchnata Marketshed.

Dywedodd ymgynghorydd Lafan, Jamie Hughes: "Rydym yn edrych ymlaen at gefnogi busnesau i dyfu'n ddigidol.

"Y cam cyntaf yw sefydlu amcanion y busnes ac yna darganfod beth sydd ei angen ar y cwmni, boed hynny'n e-farchnata, cyfryngau cymdeithasol, dewis meddalwedd cywir, gwefannau, e-fasnach neu systemau cyfrifyddu ac ati.

"Mi wnes i weld yn ystod rhaglen y llynedd nad oedd llawer o gwmnïau yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael.

"Gall harneisio pŵer y llwyfannau digidol roi hwb gwirioneddol i fusnes mewn ardal wledig fel Gwynedd. Mae gwerthu ar-lein yn golygu y gellir lleoli busnes yn unrhyw le felly does dim angen safleoedd manwerthu arnoch mewn ardal boblog iawn.

"Mae llawer o'r busnesau hyn yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw ei wneud ond dydyn nhw ddim yn siŵr sut i gyrraedd yno, a dyna lle rydyn ni'n dod i mewn.

Ymhlith y rhai a gafodd gymorth yn ystod y prosiect cyntaf y llynedd oedd y gwneuthurwr caws nodedig Carrie Rimes, o Fethesda, yng Ngwynedd.

Mae ei chaws Cosyn Cymru, a wnaed gyda llaeth dafad, wedi ennill llu o wobrau a'r llynedd cafodd ei henwi fel y Cynhyrchydd Bwyd Gorau yng Ngwobrau Bwyd a Ffermio'r BBC.

Er ei bod hi'n wych am wneud caws nid technoleg oedd ei chryfder, felly mi roddodd Jamie help llaw i Carrie wrth integreiddio ei systemau cyfrifiadurol drwy rannu ffeiliau a defnyddio meddalwedd cyfrifo i reoli anfonebau.

Dywedodd: "Mae Jamie wedi bod yn help mawr iawn oherwydd dydi ochr ddigidol pethau ddim yn dod mor hawdd â hynny i mi.

"Ond rwy'n deall ei fod yn hollol hanfodol, ac mae rhai pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud yn ddigidol bellach, fel yr ochr cyfrifyddu er enghraifft.

"Mae yna gyfres o bethau eraill a allai yn sicr wneud ein bywydau yn haws i leihau nifer yr oriau rwy'n eu treulio ar y gliniadur.

"Mae'n fater o ddod o hyd i bethau pwrpasol sy'n cyd-fynd efo'n busnes a dyna lle mae'r sesiynau un-i-un efo Jamie wedi bod mor ddefnyddiol, gan deilwra'r sesiwn i anghenion y busnes.

"Mae Dyfodol Digidol yn rhywbeth y byddwn yn ei argymell yn fawr i gwmnïau eraill."

I gael rhagor o wybodaeth am gynllun Dyfodol Digidol cysylltwch â Lafan drwy anfon e-bost at post@lafan.cymru neu ffonio 01248 665624

**Cyfarchion Pen-blwydd**
Deallwn bod gohebydd yr *Eco* yn Llanberis, Eifion Roberts, Sŵn y Gwynt, wedi dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 13eg Chwefror. Anfonwn ato gyfarchion hwyr, gan obeithio iddo gael diwrnod braf o ddathlu. Pen-blwydd Hapus i chi, Eifion; a diolch am eich holl waith dros yr *Eco.* (Gol.)

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn, ebost, neu alwad personol trwy'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*. Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6pm tan 7.30pm. Cost: £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnio**
Cyfarfod yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Iau, o 2pm hyd 4 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn casglu sbwriel bob bore Sul trwy'r haf, hyd at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Mae'r grŵp yn cychwyn am 10 o'r gloch y bore o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni; ac mae pob offer ar gael i gasglu'r sbwriel! Gweler y trefniadau bob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar *Facebook*.

**Capel Coch**
**Cymun Bore'r Groglith**
Cynhelir Gwasanaeth Cymundeb yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch fore Gwener y Groglith, Mawrth 29 dan arweiniad y Parchg John Pritchard. Croeso cynnes i chi ymuno â ni.

**Oedfaon Mawrth, Ebrill a Mai**
Mawrth 31, Sul y Pasg: 10.00 am – Y Parchg Gerallt Lloyd Evans
Ebrill 7: 10.00 am – Y Parchg Olwen Williams
Ebrill 14: 2.00 pm – Mr John Roberts
Ebrill 21: 10.00 am – Ms Eleri Jones
Ebrill 28: 2.00 pm – Y Parchg John Pritchard
Mai 5: 10.00 am – Mr Robert Morris

**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau i ni. Cân eu hanfon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir gadael y stampiau yn y bocs yng nghyntedd y Capel neu ei rhoi i un o'r Swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gellir rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yng nghyntedd y Capel unrhyw Sul.

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
**Gwasanaethau'r Pasg a mis Ebrill.**
Mawrth 24, Sul y Blodau: 8.00 am – Cymun Bendigaid; 11.00 am – Gwasanaeth Teulu
Mawrth 28, Nos Iau: 7.00 pm – Dathliad Dydd Iau Cablyd
Mawrth 31, Sul y Pasg: 11.00 am – Cymun Bendigaid
Ebrill 7: 11.00 am – Cymun Bendigaid
Ebrill 14: 11.00 am – Boreol Weddi
Ebrill 21: 11.00 am – Cymun Bendigaid
Ebrill 28: 8.00 am – Cymun Bendigaid; 11.00 – Gwasanaeth Teulu

**Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr**
Elis Roberts; 2. Mark Jones; 3. Fiona Watkins

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau'r Pasg a mis Ebrill
Mawrth 24, Sul y Blodau: 9.30 am – Cymun Bendigaid
Mawrth 30: 7.00 pm – Gwylnos y Pasg
Ebrill 7: 9.30 am – Boreol Weddi
Ebrill 14: 4.00 pm – Gwasanaeth Teulu
Ebrill 21: 9:30 am – Boreol Weddi
Ebrill 28: 9:30 am – Cymun Bendigaid




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 24

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*A deud y gwir dydy Bob ddim yn symud ymhell o'i gartref ar lethrau Moel Rhiwen, yn enwedig yn ystod misoedd oer, gwlyb a gwyntog y gaeaf. Dydy hynny ddim yn syndod, gan nad yw rhai cathod byth yn mentro heibio i derfyn eu gerddi eu hunain, er mae rhai yn teithio ymhell oddi cartref. Dydy'r pellter cyfartalog wnaiff cathod grwydro ddim yn bell iawn, rhwng tua 40medr a hyd at 200medr o'u cartref gan amlaf. Dydy o ddim syndod mai cathod fferm sy'n dueddol i grwydro pellaf, gall rhai grwydro hyd at ddwy filltir i ffwrdd o'u cartrefi. Mae cath wryw yn dueddol o grwydro ymhellach os nad yw wedi cael ei gyweirio, yn enwedig os oes cath fach handi yn y cyffiniau. Felly mae siawns go dda nad yw eich cath yn bell iawn os ydy o neu hi wedi mynd ar grwydr.*

*Dwi'n gwybod faint o lanast mae Bob yn gallu ei wneud ym morderi'r ardd ac os oes ganddoch gathod yn ymweld acw ac yn gwneud llanast, y newyddion drwg yw nad yw cathod yn gallu tresmasu! Nid yw Deddf Anifeiliaid 1971yn berthnasol i gathod felly mae ganddynt yr 'hawl i grwydro' sydd yn ei dro'n golygu nad oes cyfrifoldeb cyfreithiol ar y perchennog am ble mae'r gath yn crwydro.*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori …

"Mae hi'n hen bryd iddi gynhesu. Er mae yma fwy o flodau yn yr ardd; a dydy tywyllwch y nos ddim yn cyrraedd mor gynnar. Mae'r pethau bach pluog yn canu mwy ac yn hedfan ar ôl ei gilydd fwy yn ddiweddar, sydd fel arfer yn arwydd y bydd hi'n cynhesu. Dydy hi ddim wedi bod yn bwrw a chwythu rhyw lawer yn



ddiweddar, felly mi fyddai'n licio mynd allan i'r ardd i weld be welai a gan fod gen i got ffwr hardd a thrwchus dydw i ddim yn teimlo'r oerni fel y deu-droediaid. Mae'r lleiaf yn cwyno byth a hefyd, yn enwedig pan mae hi'n rhoi eu dillad gwlyb nhw allan ar gortyn hir yn yr ardd, er does dim digon o haul eto i mi gael eistedd o danyn nhw'n trio dal eu cysgodion.

Pan oeddwn i'n fengach ac yn byw efo deu-droediaid lot llai clên na'r rhai yma, roeddwn i'n crwydro mwy. Wel roedd gen i ambell i gariad bach handi rai strydoedd i ffwrdd o'r hen dŷ, ac mi oeddwn i'n dipyn o jiarff bryd hynny. Ond och a gwae daeth y crwydro hwnnw i ben pan wnes i ddim rhedeg i ffwrdd yn ddigon cyflym oddi wrth y peiriant pedair olwyn mae'r deu-droediaid yn hoffi teithio ynddynt. Fues i'n reit giami bryd hynny, ond fe wnaeth y bobl yn y lle fy ngwneud i'n well, ac un o'r rheiny ddaeth a fi at y deu-droediaid presennol.

Dydw i ddim yn mynd yn bell o'r tŷ yma bellach, wnes i fentro dros y wal unwaith, yn fuan ar ôl i mi gael dod allan o'r cwt, ond doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel iawn yno. Erbyn hyn dwi'n sticio i'r ardd ac o gwmpas y tŷ.

Mae hi'n anodd deall y deu-droediaid yma o hyd. Pan dwi ffansi mynd allan dwi'n eistedd wrth y drws ac fel arfer daw un ohonyn nhw i'w agor o. Ond os ydy hi'n chwythu a bwrw fydda i ddim isio mynd allan am yn hir, dim ond digon i wneud beth sydd raid ac i gael awyr iach. Roedd yr un fach yn bytheirio'r diwrnod o'r blaen ac yn dweud mod i fel io io! Wir yr! Ydw i'n edrach fel rhywbeth bach crwn sy'n mynd i fyny ac i lawr darn o linyn? Beth bynnag dydw i ddim ond yn meddwl amdanyn nhw, fel eu bod nhw'n cael dipyn o ymarfer corff, yr un fach yn enwedig gan fod hi wedi stopio mynd i fyny ag i lawr yr ysgol ar hyn o bryd.

Mi fyddai'n trio helpu ac eistedd y tu allan i ffenast y gegin weithiau, i adael iddyn nhw wybod y baswn i'n hoffi dod i mewn i'r tŷ. Am ryw reswm dydyn nhw byth yn agor y ffenast i mi, fel oedd cyn deu-droediaid yn ei wneud erstalwm, ond yn mynd i agor y drws cefn ac yna'n cwyno bod hi'n oer! Petasen nhw'n agor y ffenast mi allwn i ddod i mewn yn syth a fyddai dim gymaint o wynt oer yn dod i'r tŷ. Ond o na! Dydy hi ddim yn gadael i mi roi pawen ar y topiau yn y gegin. Cathod a ŵyr pam, oherwydd fel ydach chi'n gwybod mae cathod yn greaduriaid hynod o lân. Datrysiad arall fyddai iddyn nhw adael y drws cefn ar agor drwy'r dydd i mi gael mynd a dod fel hoffwn i. Beryg y bydd rhaid i mi ddisgwyl tan y tywydd braf cyn hynny, fedra i ddim disgwyl.

Asiffeta! Lle maen nhw? Dwi'n ista'n fan'ma ers hydoedd, does gen i ddim miaw, felly allai ddim gwneud iddyn nhw fy nghlywed i. O'r diwadd! Mae'r un mwyaf yn dod at y drws cefn!

Os wnâi rwbio rownd ei goesa fo efallai fedrai ei berswadio i roi ryw damaid bach o fwyd i mi hefyd. Wedi'r cyfan, os ydy hi'n dal yn oer mi fyddai angen digon o floneg i gadw'n gynnes."



## WAUNFAWR

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Arwel a Lowri, Haulfryn ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, sef Mabli Nel. Hwyl fawr iawn i chi ar y magu.

**Brysiwch wella**
Cofion cynnes at Raymond Parry, Ffridd Felan, sydd wedi bod yn sâl ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio byddwch yn gwella'n fuan, Raymond.

**Noson codi arian**
Bu criw o rieni yn brysur iawn yn trefnu noson rasus geffylau ac ocsiwn yn y dafarn i godi arian at Ysgol Waunfawr a Chylch Meithrin Waunfawr. O ganlyniad i gefnogwyr ar y noson, noddwyr a'r arian o'r ocsiwn, llwyddwyd i godi bron i £2,000. Da iawn, bawb!

**Noson Gŵyl Ddewi Plaid Cymru**
Daeth Geraint Lovgreen i'r Weun er mwyn rhoi help llaw i ni ddathlu Gŵyl Ddewi eleni. Roedd yn bleser gwrando arnynt yn chwarae a chlywed Geraint yn esbonio cefndir y caneuon.

Cofiwch am y noson sydd gennym ar Ebrill 12fed – gyda Bwncath yn dod i berfformio. Noson dros 18 oed fydd hon.

### HYSBYSEB SWYDD

**Cyngor Cymuned Waunfawr a Chaeathro – Hysbyseb Swydd**
**Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol / Clerc Mynwent Betws Garmon**
Mae Cyngor Cymuned Waunfawr a Chaeathro yn awyddus i benodi Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol sydd â phrofiad perthnasol a'r ymrwymiad i gyflawni blaenoriaethau a gofynion statudol y Cyngor. Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am weithredu gofynion cyfreithiol, ariannol a gweinyddol y Cyngor ynghyd â gweinyddu ar ran Mynwent Betws Garmon. Mae'n ofynnol gweithio'n hyblyg yn y swydd a gallu gweithio o gartref. Bydd cyfnod o anwytho i'r ymgeisydd llwyddiannus pe bai angen.

Oriau: Rhan amser, oddeutu 30 awr y mis, yn cynnwys mynychu cyfarfodydd y Cyngor bob 6 wythnos.

Cyflog: I'w drafod

Y cam cyntaf yw e-bostio eich CV sy'n cynnwys eich manylion cyswllt ynghyd â llythyr i gefnogi'ch cais at Hawys Tuff:
**cynghawystuff@ccwaunfawrcaeathro.co.uk**

Am fanylion pellach, cysylltwch â Shoned Griffith:
**clerc@ccwaunfawrcaeathro.co.uk**

Dyddiad Cau: Dydd Gwener, 5ed o Ebrill 2024 am hanner nos.



## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd pawb i gyfarfod mis Chwefror gan ein llywydd Pat Jones. Darllenwyd llythyr y mis a thrafod cynlluniau ar gyfer ein Cyfarfod Blynyddol y mis nesaf ynghyd â threfniadau ein gwibdaith flynyddol ym mis Mehefin. Carol oedd gyda ni heno gyda gêm o Boccia. Cafwyd cystadleuaeth ddiddorol a llawer o hwyl gyda'r ddau dîm oedd yn cymryd rhan. Diolchwyd i Carol am noson ddifyr.

**Diolch**
Dymuna Mair Davies, gynt o Ty'n Buarth ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y gefnogaeth gafodd tra bu yn Ysbyty Gobowen yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Mae yn gwerthfawrogi y gofal arbennig iawn gafodd yn yr Ysbyty ac wedi dychwelyd gartref. Diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd.

**Profedigaeth**
Ar 1af o Fawrth daeth y newydd trist am ymadawiad Euronwy Roberts yn ei chartref 8, Trem Eilian yng ngofal ei theulu yn 93 mlwydd oed. Hi oedd yr hynaf yn ein plith o hen deuluoedd Brynrefail. Cydymdeimlwn yn ddwys â Meilir a Delyth ynghyd â'u teuluoedd a'u cydnabod ac â'i chwiorydd Gwyneth a Falmai a'i brawd Maldwyn yn eu profedigaeth.

# Un funud fach ...

## CHWILIO YN Y LLE IAWN



'Lle i bopeth a phopeth yn ei le,' meddan nhw. Beth bynnag am 'le i bopeth', mi wn na fedraf honni bod 'popeth yn ei le' acw, er ei bod yn syndod mor rhwydd y dof o hyd i'r pethau lleiaf. Ond o leiaf mae'r pethau pwysicaf – ar y cyfan – yn eu lle. Neu felly y meddyliwn nes i mi golli'r llyfr siec. Y mae i hwnnw ei le, a chan mor anaml y byddaf yn ei ddefnyddio erbyn hyn, mae'n bwysicach fyth iddo gael ei gadw'n ddiogel. Ond doedd o ddim yn ei le arferol y dydd o'r blaen. Mi edrychais fwy nag unwaith trwy bopeth oedd yno, ond i ddim diben.

Mi wyddwn ei fod rywle yn y tŷ gan na fu achos i fynd ag o i unman ers blynyddoedd. Ac wedi hir chwilio amdano, mi ddaeth i'r fei ... yn ei le arferol. Roeddwn wedi anghofio bod y banc wedi newid lliw'r llyfr siec! Yn lle'r clawr glas tywyll cyfarwydd, clawr gwyn sydd i'r llyfr siec diweddaraf. A bu hynny'n ddigon i'm drysu ac i wneud i mi fethu â'i nabod, er i mi afael ynddo fwy nag unwaith wrth chwilio'n gynharach.

Ystrydeb yw dweud bod pawb yn chwilio am rywbeth, ond mae'n wir serch hynny: cyffro, antur, hapusrwydd, cariad, cysur, dedwyddwch, gobaith, heb sôn am rywbeth sy'n gwneud synnwyr o'r byd a'i helbulon a rhywbeth a rydd reswm dros fyw ac ystyr i'w bodolaeth. Gall y chwilio fynd â phobl at bob math o brofiadau a gwahanol athroniaethau a chrefyddau ac amrywiol ffyrdd o fyw. A hyn yn aml heb i'r cyfan roi gwir fodlonrwydd nac atebion digonol, yn arbennig i'r cwestiynau dwysaf ynghylch breuder bywyd a realiti marwolaeth a phosibilrwydd unrhyw fath o fywyd y tu hwnt iddo.

Rhan fawr o'r gyfrinach ydi chwilio yn y lle iawn. I'r Cristion, y lle hwnnw yw'r Beibl a'r Efengyl, y Ffydd Gristnogol a chymdeithas addolgar Eglwys Iesu Grist. Tristwch pethau yw bod cynifer o bobl yn credu eu bod wedi chwilio'n ofer. Ond yn aml iawn, roedden nhw'n chwilio am y peth anghywir. Chwilio am grefydd, chwilio am egwyddorion, chwilio am ffordd o fyw, heb sylweddoli nad dyna y mae'r Beibl na'r Efengyl na'r Ffydd yn ei gynnig yn gyntaf oll ond person, ac adnabyddiaeth o'r person hwnnw.

Eleni eto, mae Gŵyl y Pasg yn atgoffa'r Cristion mai person yw cyfrinach ei gysur a'i obaith. Yr Arglwydd Iesu Grist yw'r bywyd llawn. Nid athroniaeth na chrefydd ond y person hwn, a fu fyw ac a fu farw ac a ddaeth yn ôl yn fyw, yw ein diddanwch a'n nerth a'n hyder. Trwy gredu ynddo y cawn faddeuant; trwy bwyso arno y cawn gymorth i fyw er ei glod; a thrwy ymddiried ynddo y cawn obaith sicr o'r bywyd sy'n ein haros y tu draw i farwolaeth.

Chwiliwn amdano yn y Beibl, yn yr Efengyl, yn y Ffydd Gristnogol ac yng nghymdeithas ei Eglwys. Yno yn sicr y'i ceir; dim ond i ni ofalu ein bod yn chwilio am y peth iawn, sef y person rhyfeddol ag ydi ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist.

**JOHN PRITCHARD**

# Lluniau Isaac Hughes

Mae arddangosfa arbennig o ffotograffau i'w gweld yn Eglwys Sant Padarn Llanberis ar hyn bryd; gwaith y ffotograffydd cynnar, Isaac Hughes.

Tynnodd Isaac Hughes gannoedd o bortreadau o bentrefwyr, a hefyd ddelweddau o chwarelwyr Dinorwig ac mae'r lluniau yn rhoi cipolwg byw o fywyd a chymeriadau Llanberis a'r cyffiniau rhwng 1870au a'r 1880au.

Mae Gareth Roberts, cydlynydd cynllun Cerdded a Darganfod, Menter Fachwen wedi treulio blynyddoedd yn adfer y lluniau ac ymchwilio i'r ffotograffydd a'r bobol a'r golygfeydd sy'n cael eu darlunio yn ei waith.

Roedd trysorfa o ddelweddau, platiau gwydr ffotograffig, printiau a llythyrau wedi bod yn casglu llwch mewn atig yn Stryd Tomos, Llanberis ers dros 100 mlynedd. Daethpwyd o hyd iddyn nhw yn yr 1980au, pan symudodd teulu i'w cartref newydd a dod o hyd i'r casgliad hynod.


Meddai Gareth Roberts, "Rydym yn gwybod bod Isaac Hughes wedi ei eni yn 1833, ei fod yn byw gyda'i deulu ar fferm yn Nyserth, Sir Ddinbych. Er ei fod wedi treulio peth amser yn Llanberis, dychwelodd i fyw i Ddyserth yn ei flynyddoedd olaf.

"Bu farw yn 78 oed yn 1911 a chladdwyd ef gyda'i rieni yno. Roedd yn gymeriad go iawn, a'r hyn sydd i'w weld o atgofion pobl yw'r hwyl oedd i'w gael yn ei gwmni."

Roedd Isaac Hughes yn adnabyddus ar draws gogledd Cymru, gweithiodd yn Ynys Môn, a gogledd Lloegr hefyd a chredir iddo ddysgu ei grefft yn Lerpwl.

Ychwanegodd Gareth Roberts: "Byddem wrth ein boddau yn dysgu mwy am Isaac Hughes, neu glywed gwybodaeth bellach neu atgofion teuluol am unrhyw un sydd yn y lluniau. Hefyd petai gan unrhyw un luniau eraill gan Isaac Hughes i ni eu gweld, cysylltwch ar bob cyfri."

**Mae arddangosfa Ffotograffau Isaac Hughes i'w gweld yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10.30am – 2.00pm.**



**1. RICHARD HUGHES**

Dyma lun gŵr urddasol o tua 1880. Drwy gyd-ddigwyddiad, tynnwyd ei lun ryw 15-20 mlynedd yn ddiweddarach gan William Symonds, ffotograffydd arall, a'i enwodd fel Richard Hughes o Ddôl Afon.

Fferyllydd ydoedd a phregethwr lleyg yng nghapeli Gorphwysfa a Phreswylfa, Llanberis. Hwn yw'r enwog 'Hughes Drygist' yr enwir y bont dros yr Afon Goch yn y pentref ar ei ôl. Bu farw Hughes yn 1923 yn 89 oed.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT
menter fachwen



**2. GRŴP YN EISTEDD AR FARELI O BOWDWR GWN**

Rhaid gofyn y cwestiwn – ydy'r dynion yma'n hynod ddewr, neu wedi derbyn cyngor gwael? Maent yn eistedd ar fareli sy'n llawn o bowdwr gwn.

Defnyddiwyd rhaffau i gadw siâp y bareli yn hytrach na metel gan fyddai hynny wedi bod yn rhy beryg. Cymysgfa o stiwardiaid a chwarelwyr cyffredin sydd yma. Mae'n amlwg bod un neu ddau wedi bod yn gweithio yn y chwarel am flynyddoedd maith gan fod eu dillad fel pe baent o gyfnod cynharach. Dim ond criw bach o hogiau a dynion oedd yn gymwys i drin y bareli. Dyletswydd yr hogiau ifanc ar y chwith oedd cario'r bareli o un bonc i'r llall.

**3. ELIZABETH HUGHES (Y BABAN)**

Mae'r ffotograff yma'n unigryw yng nghasgliad Isaac Hughes oherwydd iddo ysgrifennu enw ac oedran y babi ar gefn y llun, yn ogystal â'r dyddiad y'i tynnwyd. Dyma Elizabeth Hughes (dim perthynas iddo) a oedd yn 4 mis oed ar 8fed Awst, 1878. Plentyn cyntaf chwarelwr o'r enw David Hughes ydyw. Elizabeth oedd enw'r fam hefyd. Yn ôl cyfrifiad 1881 trigai'r teulu ym Mhentre' Castell. Bu farw'r tad yn y chwarel ym 1889.

Erbyn 1907 'roedd Elizabeth, y ferch, wedi priodi chwarelwr o'r enw Robert Jones. Lladdwyd chwarelwr o'r un enw yn y chwarel sawl blwyddyn yn ddiweddarach.










**4. INJAN DE WINTON WELLINGTON (PONC CALIFFORNIA)**


Yr Wellington oedd yr injan gyntaf i weithio ponciau chwarel Dinorwig ym 1870. Dyma'r unig injan yn Ninorwig a wnaethpwyd gan De Winton, Caernarfon. Yng nghyfnod Isaac Hughes, roedd Yr Wellington yn gweithio ponc Califfornia (lle tynnwyd y llun hwn). Nid oedd cab gyda'r injan ac roedd y simdde yn isel er mwyn galluogi mynd trwy'r twneli yn y chwarel. Roedd diffyg cab yn golygu bod y gyrrwr yn gorfod gweithio ym mhob tywydd, heb unrhyw loches.

Dyma un enghraifft o ail-dynnu'r lleoliadau'r lluniau fel y maent heddiw. Sylwer ar y ddarn llechen sydd yn sefyll o hyd. Dyma roedd cwt hollti ponc Califfornia.



**5. ISAAC EI HUN?**

Ar cefn sawl un o 'Cartes de Visite' Isaac Hughes mae'r enw H.J. Hughes yn ymddangos. Roedd H.J. yn cadw siop yn Twthill, Caernarfon. Brawd Isaac Hughes oedd Hugh ac yn diweddarach bu i'r ddau ymddeol i Ddyserth. Yng nghasgliad Isaac Hughes roedd sawl llythyr wedi eu danfon i'r ddau frawd. Roedd Huw hefyd yn ffotograffydd ac yn arlunydd o fri. Ymysg casgliad Isaac Hughes mae'r portread hwn. Yn ddiweddarach, darganfuwyd disgrifiad fanwl o Isaac Hughes mewn erthygl a gyhoeddwyd yn y 1920au (10 mlynedd ar ôl marwolaeth Isaac) gan ddyn oedd yn hel atgofion am ei blentyndod yn Llanberis yn y 1870au. O ddarllen yr erthygl, mae'n wir bosib mai portread o Isaac Hughes ydi hwn gan ei frawd, Huw.




**Teithiau Cerdded Ebrill Cyllun Cerdded a Darganfod**

**Dydd Mawrth 9ed Ebrill 2.00pm**
HIRAEL A PIER BANGOR (1.5 milltir)
Cychwyn o Bwll Nofio Bangor
Eitha hawdd

**Dydd Mawrth 23ain Ebrill 10.00am**
Rhiwlas a Plas Pentir (hyd at 2.5 milltir)
Cychwyn o Neuadd Bentref Rhiwlas
Cymedrol gyda llwybrau cyhoeddus

w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

ECO'r Wyddfa

# Ysgol Waunfawr

**Eisteddfod Yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r holl gystadleuwyr a fuodd yn yr Eisteddfod Cylch yn ddiweddar. Pob lwc i'r rhai a fydd yn cystadlu yn y sir sef Dei Greasley, Twm Roberts a'r criw cyflwyniad theatrig.

Pob lwc hefyd i'r criw a fydd yn dawnsio yn yr Eisteddfod ddawns ac i Clara a fydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth offerynnol yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Mai.







**Twrnament Rygbi Yr Urdd**
Bu i'r tîm rygbi ennill mewn twrnament ar y Morfa yn ddiweddar gan guro pob gêm. Y gamp fwyaf oedd y nerth amddiffynnol, gan nad oedd yr un cais wedi ei sgorio yn eu herbyn. Ymlaen i Aberystwyth nesaf i'r twrnament cenedlaethol. Pob lwc hogia!

**Dydd Gŵyl Ddewi**
Cafwyd gorymdaith o amgylch y pentref i ddathlu a chofio am ein nawddsant. Roedd pawb wrth eu boddau yn chwifio'r baneri.

**Nawdd**
Yr ydym yn parhau i chwilio am nawdd ar gyfer y bws i Langrannog - cysylltwch os allwch chi helpu os gwelwch yn dda.

**Cyfeillion Yr Ysgol**
Diolch yn fawr i gyfeillion yr ysgol am drefnu ocsiwn a rasys ceffylau yn y dafarn yn ddiweddar. Braf oedd gweld cymaint o gefnogaeth i'r ysgol.

**Diwrnod Y Llyfr**
Bu i'r plant ddathlu diwrnod y llyfr yn ddiweddar gan wisgo fel cymeriad o lyfr neu wisgo'n gyfforddus i ddarllen llyfr. Braf oedd gweld y plant yn rhannu a mwynhau llyfrau o bob math.












**Gala Nofio Ysgolion**
Bu i'r tîm nofio ddod yn fuddugol yn y Gala Nofio yn ddiweddar. Pob nofiwr yn ddel a digon o sioe yn eu capiau nofio. Braf yw gweld plant yn nofio cystal, ac yn llwyddo wedi'r gwaith caled.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
16 Stryd Porth Mawr
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG
(01286) 673535/676040
Ebost: enquiries@perkinsfurniture.co.uk
www.perkinsfurniture.co.uk

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# Ysgol Brynrefail

**Llwyddiannau nofio**

Llongyfarchiadau mawr i Efa Thomas blwyddyn 7 sydd wedi gwneud yn wych mewn gala nofio yn ddiweddar, fel y gwelwch chi o'r holl fedalau enillodd hi!

Dyma enwau disgyblion eraill fu'n llwyddiannus hefyd: Dion Edwards bl.12, Alaw Edwards bl.9, Now Parry bl.10, Ela Lewis, Mali Jones a Leah Williams bl.8. Rydym ni'n falch iawn o lwyddiannau pob un o'r disgyblion yma sy'n rhoi oriau o'u hamser i'w sgiliau nofio bob wythnos. Da iawn chi!






Tafarn Y Glyntwrog Llanrug

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191




**Prifysgol y Plant**

Cafodd criw arbennig o ddisgyblion blwyddyn 8 brofiad bendigedig yn Pontio, Bangor yn ddiweddar. Cawsant fod yn rhan o seremoni raddio arbennig o Brifysgol y Plant yno ar ddydd Iau, 29ain Chwefror. Seremoni oedd hon oedd yn gyfle i ddathlu cyflawniadau'r bobl ifanc dros nifer o fisoedd fel rhan o'r prosiect Prifysgol y Plant Gwynedd a Môn.



Pan glywsom yn yr ysgol am waith Prifysgol y Plant yr haf diwethaf roeddem yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r prosiect peilot yng Ngwynedd a Môn. Mae ysgolion gogledd-ddwyrain Cymru wedi bod yn cymryd rhan ym Mhrifysgol y Plant ers nifer o flynyddoedd. Eleni fe wnaethant benderfynu lledaenu i ysgolion y gogledd-orllewin. O ganlyniad i hynny ysbrydolwyd ni i fod yn rhan o'r cynllun peilot a rhoi cyfle i rai o ddisgyblion blwyddyn 8 i gymryd rhan yn y prosiect.

Bwriad Prifysgol y Plant ydi annog cariad at ddysgu a rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc elwa o ddysgu ychwanegol trwy gwblhau 30 awr o weithgareddau tu hwnt i wersi arferol a thu hwnt i oriau arferol yr ysgol.

Diolch i Miss Beca Owen a Miss Elain Roberts am roi'r cyfle i ddisgyblion dosbarth gofrestru 8O i gymryd rhan yn y cynllun. Un o'r gweithgareddau mwyaf llwyddiannus oedd ymweliad yr Aelod Senedd Cymru, Sian Gwenllian â'r ysgol a'r sesiwn holi ac ateb a gafodd blwyddyn 8 gyda hi bryd hynny. Cymerodd sawl un o'r disgyblion ran mewn Ffotomarathon a gynhaliwyd yn Llyfrgell Caernarfon lle cawsant gyfle i ddangos eu campweithiau. Gweithgaredd arall poblogaidd oedd creu bwydwyr adar ar gyfer gardd yr ysgol.

Yn olaf, diolch i'r holl rieni a ddaeth draw i Pontio ar gyfer y seremoni raddio a'r dathliadau gafwyd wedi hynny yno. Mae diddordeb rhieni yn addysg eu plant a'u cefnogaeth i hynny yn hanfodol i sicrhau llwyddiant. Diolch i chi ac wrth gwrs i'r disgyblion arbennig yma: Beca Wyn Owen, Efa Haf Foulkes, Efan Huw Gwilym, Efan John Morgan, Elain Dafydd Beech, Emily Maisie Baxter, Isla Louise Buchanan, Iwan Gethin Williams, Llywelyn Pennant Jones, Lois Elen Aaron a Mali Angharad Jones.



# LLANRUG

**Cydymdeimlad**
Estynnwn gydymdeimlad tyner i deulu y ddiweddar Marion McGuinness o Ardwyn, Lôn Groes a fu farw'n dawel yng nghwmni ei theulu ar yr 8fed o Chwefror yn 87 mlwydd oed. Gwraig y diweddar Gerry, mam gariadus Gareth, Patrick, Sandra ac Amanda, mam-yng-nghyfraith hoff Bruce a Tony, nain a hen nain arbennig i'r wyrion a'r wyresau bach i gyd, a chwaer annwyl Meirion, Merfyn, Elwyn, Einir a'r ddiweddar Carys. Colled fawr i'w holl deulu a ffrindiau.

**Capel y Rhos**
Ddiwedd mis Chwefror, roeddem yn ffarwelio â blaenor hynaf ein capel sef Mr Iolo Llywelyn, 18 Cae Garnedd Bangor – gynt o Pant Afon Bach, Llanrug. Yn 97 oed, bu'n flaenor gweithgar a chydwybodol yng Nghapel y Rhos a chyn hynny yng Nghapel Mawr Llanrug. Bu'n ysgrifennydd gofalus am flynyddoedd lawer ac yn aelod ffyddlon o Bwyllgor Henaduriaeth Arfon. Rhoddodd wasanaeth gwerthfawr iawn fel pregethwr o fewn cylch yr Henaduriaeth a bydd colled enfawr ar ei ôl.

Cynhaliwyd ei angladd ar 17eg Chwefror yn breifat yn Amlosgfa Bangor gyda gwasanaeth cyhoeddus i ddilyn i ddathlu ei fywyd yng Nghapel y Rhos. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Huw a Dafydd ei neiaint, ynghyd ag Emily Huws, ei chwaer-yng-nghyfraith, a Jean ei ofalwraig o Benisarwaun, dwy a fu tu hwnt o hynod eu gofal ohono am flynyddoedd lawer.

Mae'n diolch yn fawr iawn i Mr Dafydd Ellis, Brynrefail am gynllunio a gwneud hysbysfwrdd arbennig o hardd a'i osod ar wal y Capel. Mae gwaith Dafydd bob amser yn gywrain ac unwaith eto mae wedi llwyddo i ddangos ei grefftwaith campus. Diolch o galon iddo.

Oedfaon Capel y Rhos mis Ebrill am 10.00 o'r gloch:

7 Ebrill – Parch John Pritchard
14 Ebrill – Ms Eleri Jones
21 Ebrill – Y Barch. Nerys Anne Griffiths ein gweinidog
28 Ebrill – Y Barch. Glenys Jones

**Gair o ddiolch**
Fe ddymuna Glenda, Maldwyn a Gethin, Cefn Rhyddallt a'r teulu oll, ddiolch o galon am bob cefnogaeth, galwadau personol a thros y ffôn a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd er cof am Goronwy Morris, gŵr, tad a thaid caredig.

Roedd y rhoddion yn mynd i Ward Alaw yn dilyn eu gofal am Goronwy, a mawr ddiolch am ofal gan y Meddyg Teulu, y Nyrsus Cymuned a'r rhai arbenigol a'r Gofalwyr Cartref. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

**Penblwyddi**
Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar ddathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar:
Beca Fôn Parry, Lôn Groes, yn dathlu'n ddeunaw oed
Cemlyn Jones, Bedw Gwynion yn dathlu'r hanner cant
Anwen Owen, Bryn Moelyn a Beryl Griffith, Llecyn, Ogwen – y ddwy yn dathlu'r 70 oed

Pob bendith, a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu!

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Malcolm Pitts, Y Gelli, Ffordd yr Orsaf ar ddod yn daid i Leia Yvonne, merch fach i Fiona a'i gŵr Gavin, sydd yn byw yn Rhostryfan. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Gobeithio i bawb fwynhau dathliadau Dydd Gŵyl Dewi eleni, dydd ein nawddsant, drwy wneud a rhannu y pethau bychain. 'Gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg hi yn dy galon.'

**Merched y Wawr Llanrug**
Nos Fawrth, 13eg Chwefror, estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau gan y Llywydd, Bethanne. Cychwynnwyd gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio.

Dymunwyd adferiad iechyd buan i Rhiannon ac i'n hysgrifenyddes weithgar Meirwen wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchwyd Nan ar ddod yn Nain falch eto a llongyfarchiadau brwd i Eryl ar ddod yn hen Nain. Estynir ein cydymdeimlad llwyraf â Sioned Larsen a'r teulu oll yn eu colled enfawr o golli brawd annwyl yn ddiweddar. Ein cydymdeimlad hefyd â Freda, ein Swyddog Datblygu, ar golli ei Mam. Trafodwyd Caffi'r Urdd, 24ain Chwefror, a diolchwyd i bawb am fod mor barod i helpu.

12fed Mawrth cynhaliwyd noson Gŵyl Ddewi gyda chawl a bara brith a theisennau cri a chyfle i gymdeithasu.

Mis Mai, cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Abersoch. Gan bod Taith Gerdded Rhanbarthol Llanberis wedi bod mor llwyddiannus, trafodwyd lleoliad a dyddiad cyfleus ar gyfer un tebyg eto. Bu'r Cwis Hwyl yn llwyddiannus gyda diolch i'r aelodau a gefnogodd ein cangen.

Siaradwr gwâdd y noson oedd Anna Pritchard o Glasinfryn – Dylunydd Tecstiliau. Bu'n olrhain ei hanes yn creu cynlluniau unigryw ar gyfer y cartref. Mae'r deunyddiau wedi eu hysbrydoli gan draddodiadau ffermio ac awyrgylch traddodiadol. Mae'r ysbrydiolaeth yn deillio o fyd natur o'n cwmpas. Dangoswyd carthenni, clustogau a deunyddiau bendigedig wedi'u gwehyddu gan ddefnyddio gwlân Prydeinig. Mae hefyd gwasanaeth ail-orchuddio cadeiriau ar gael. I ymweld â'r stiwdio, cysylltwch i wneud apwyntiad trwy wefan "Anna Pritchard Textile Designer" neu ffôn 07810 504 939. Mae gan Anna arddangosfa yn Oriel Glyn y Weddw, Llanbedrog ar hyn o bryd dan y teitl "O'r Cnu i'r Wŷdd". Diolchwyd i Anna am sgwrs hynod o ddifyr ac addysgiadol gan Bethanne.

Diolch i Eirian, Mair, Carolyn ac Yvonne am ofalu am y baned. Enillydd y raffl oedd Phyllis.

9fed Ebrill – edrychir ymlaen at gael hanes Gweilch Glasfryn gyda Gwenan Williams.





**Te Pnawn a Chân**
Braf oedd gweld y Sefydliad Coffa yn llawn ar gyfer y digwyddiadau Te Pnawn a Chân, a drefnwyd gan y Cynghorydd Beca Brown.

Cawsom ein diddanu gan Annette Bryn Parri, Bedwar Parri, Hawys Parri, Caleb Jones a phlant Clwb Drama Ragarug.

Roedd yn wledd o gerddoriaeth ac adloniant gyda gwledd o fwyd i ddilyn gan Cegin Fach Emma ac Arlwyo Cae Gwyn.

Noddwyd y digwyddiadau gan Mantell Gwynedd a'u partneriaid, a bwriad y grant oedd i roi cyfleon cymdeithasu i bobol yn eu cymunedau.

Gan obeithio y bydd digwyddiadau tebyg yn y dyfodol gan eu bod wedi profi'n boblogaidd, a phawb wedi mwynhau.





**Hafan Elan**

Unwaith eto cawsom fis prysur a difyr yn y ganolfan. Daeth Emma (o Gegin Fach Emma) yno ar ddydd Mawrth Crempog, a chafodd pawb ddwy, os nad tair neu bedair crempog flasus!

Yna ar Ddydd Gŵyl Dewi, paratowyd pei cig oen a tharten afal a chwstard bendigedig gan Cath, mam Beverley'r Warden. Unwaith eto roedd y ganolfan wedi ei haddurno gyda baneri'r ddraig goch. Fe wnaeth pawb fwynhau canu ar y diwedd ac aeth gwobrau'r raffl i Megan Owen, Andrea Pugh a Cynthia Owen.

Wedyn dyma grwydro i Gaffi Coed y Brenin, Bethesda ar y 7fed o Fawrth lle cawsom wledd o ginio rhost cyw iâr a threiffl i ddilyn. Hynny cyn mynd i Galeri Caernarfon i gyngerdd Tonic, lle roedd Dylan Morris yn perfformio. Paned arall yn fan'no, cyn troi am adref! Diolch o galon i Elizabeth am drefnu hynny. Mi rydan ni'n hynod o lwcus yma yn Llanrug o'r cyfan sy'n cael ei drefnu i ni yn fisol fel hyn.





## Cerddlun - Mynyddoedd (Y Carneddau)

Mae yno yn y mynydd
yr hawl i freuddwydio'n rhydd.
Ym mawredd y Carneddau
y gŵr a natur sy'n gwau;
yno'r lle i fwrw llid
o'n hoerni, gwres cadernid
ddaw'n gadwyn byddin gydwaed
yno'n tras ac ôl eu traed.
Eu henwau yw ein hanes
ni a nhw drwy'n hiaith yn nes

o hyd, ein gwrthglawdd ydynt;
ein caer warchodol fel cynt.
Her yw cnul trosiadau'r cnaf
rheolwn y mur olaf.

**CWM PEN LLAFAR**




Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# Olrhain hanes cyn-fferyllwyr pentref Llanberis












Yn dilyn dyfodiad fferyllfa newydd i Lanberis, fe benderfynais mai da o beth fuasai croniclo hanes y fferyllwyr a fu'n gweithredu o'u blaen yn Llanberis.

I ddechrau, rhaid oedd cysidro o ba ffynonellau yr oeddwn yn debygol o ddarganfod pwy oedd y fferyllwyr a fu'n dosbarthu meddyginiaeth yma yn y gorffennol.

Mae'n bur debyg mai unigolion, heb addysg ffurfiol, oedd yn gyfrifol am gadw golwg ar iechyd pobl gyffredin yr ardal wledig hon ar ddechrau'r 18fed ganrif. Mi fuasai'r feddyginiaeth wedi cael ei pharatoi ganddynt allan o eitemau naturiol, megis blodau, dail, llysiau, ffrwythau a mêl, gyda'r unigolyn yn defnyddio gwahanol eitemau i drin gwahanol glefydau. Mi dybiwn fod y wybodaeth feddygol yma'n cael ei rhannu a'i chadw o fewn teuluoedd, gan fod yr unigolion yn medru cynnal bywoliaeth trwy werthu a dosbarthu'r feddyginiaeth naturiol. Ers rhai canrifoedd roedd llyfr, gyda gwybodaeth am Feddyginiaeth Naturiol, ar gael yn Saesneg ond doedd fersiwn Gymraeg ddim ar gael hyd tua 1828–29, pan gyhoeddwyd *Llysieulyfr Teuluaidd*, cyfieithiad i'r Gymraeg gan David T Jones, Llanllyfni, o lyfr gan Nicholas Culpeper. Mae gennyf gopi, bratiog ofnadwy, o'r llyfr yma.



Os oedd meddyg yn gweithio yn yr ardal, mae'n bur debyg y buasai '*dispenser*' yn gweithio gydag ef ac yn paratoi, dan gyfarwyddyd y meddyg, feddyginiaeth i'r claf. Buasai'r claf yn talu am y feddyginiaeth, ac am y cyfarwyddyd!

Erbyn tua 1850, roedd trefn genedlaethol wedi dod i rym ym maes gwaith Fferyllfa. Wedi hynny, byddai rhaid i unrhyw un oedd am ei alw ei hun yn 'Chemist', '*Pharmacist*' neu '*Druggist*' fod yn llwyddiannus mewn arholiad a gynhaliwyd gan y '*Royal Pharmacist Society*'. Byddai gan yr ymgeiswyr llwyddiannus hawl i ddarparu a gwerthu ffisig y byddent naill ai wedi ei baratoi eu hunain neu wedi ei brynu. Roedd ganddynt hefyd hawl i werthu gwenwyn, megis '*arsenic*'! Mewn 'siop *chemist*' draddodiadol, buasech yn gweld rhesi o boteli lliwgar a rhesi o ddroriau'n llawn o wahanol gemegau. Byddai enw Lladin y cynhwysion ar y botel neu'r drôr oedd yn eu dal. Mae rhesi o'r droriau (rhodd gan y diweddar fferyllydd Ieuan Ellis Jones) i'w gweld yn Ysbyty Chwarel Dinorwig.

Er mwyn darganfod tipyn o hanes fferyllwyr Llanberis bu raid i mi chwilota trwy amryw o ffynonellau er mwyn dod o hyd i unrhyw hanes a lluniau lleoliadau'n ymwneud â fferyllwyr y pentref.

**Y ffynhonnell gyntaf a ddefnyddiais oedd Cyfrifiadau (Census) Llanberis**

Doedd dim sôn am neb yn defnyddio unrhyw un o deitlau fferyllydd, megis *'Chemist'* / *'Pharmacist'* / *'Druggist'* cyn 1871. Ond yng nghyfrifiad 1871, nodi enw David P Williams (27 oed), Chemist yn Medical Hall (sef Siop Joe Brown heddiw). Yn ôl cyfrifiad 1881, roedd David P Williams, Chemist dal yn Medical Hall. Ar noson y cyfrifiad 1881, roedd y cerddor enwog, Joseph Parry (37 oed, a aned ym Merthyr Tydfil) a'i fab Joseph H Parry (16 oed, a aned yn yr Unol Daleithiau) yn aros yn y Medical Hall.

Erbyn Cyfrifiad 1881, roedd yr enwog Richard Hughes a'i deulu wedi symud o Fangor, ble roedd yn *'chemist'*, i fyw ac i gadw fferyllfa yn Dôl Peris. Y Richard Hughes hwn a roddodd ei enw i'r bont ger Dôl Peris, sef Pont Hughes Drugist (mae ei lun i'w weld ar dudalen 14). Ar noson y cyfrifiad, roedd Richard yn absennol, ond roedd ei wraig Jane yn ei chofrestru ei hun fel 'gwraig i *Chemist*', a'u dwy ferch yn '*Assistant Chemists*'. Tybiaf fod y 'Siop *Chemist*' wedi ei lleoli yn yr estyniad i Dôl Peris ar Ffordd Tŷ Du, ac mae rhai o'r trigolion hŷn yn cofio Mrs Hume, perchennog Dôl Peris, yn rhedeg Siop Gwerthu Pysgod yno yn ystod, ac ar ôl, yr Ail Ryfel Byd.

Hefyd yn 1881, roedd 'Joseph Hobley (57 oed), *Druggist*, yn byw yn Apporthoceries Hall. Rwy'n reit siŵr mai Glasgow House oedd safle siop groser, *ironmongery* a fferyllfa Mr Hobley.

Mae cyfrifiad 1891 yn nodi:
Richard Hughes, *Chemist* yn Dôl Peris;
William P Williams (24 oed), *Druggist* yn Medical Hall*;*
Joseph Hobley (68 oed), *Chemist* a'i fab, Joseph Hobley (31 oed), *Chemist* yn Halford Hill. Methais â darganfod os oedd y teulu hwn yn dal i redeg eu busnesau yn Glasgow House.

Mae cyfrifiad 1901 yn nodi:
William Pierce Williams (34 oed), *Chemist* yn Medical Hall;
Richard Hughes (69 oed), *Chemist* yn Dôl Peris;

Mae cyfrifiad 1911 yn nodi:
Richard Hughes, *Chemist* wedi ymddeol ac wedi symud i fyw i Perisfa, York Teras gyda'i wraig a'u dwy ferch a fu'n cynorthwyo eu tad yn Siop *Chemist* Dôl Peris;
William Pierce Williams, *Pharmacist* yn dal yn Medical Hall.

Mae cyfrifiad 1921 yn nodi:
Richard Hughes (88 oed), *Chemist* wedi ymddeol, yn dal yn Perisfa gyda'i wraig, Jane 88 oed a'u dwy ferch Katherine a Janie.
Edwin Parry (37 oed), *Chemist* yn byw yn Halford Hill, ond rhedeg ei fusnes yn Compton House.

Mae cyfrifiad 1939 yn nodi:
Edwin Parry (56 oed), *Chemist* wedi ymddeol, yn byw yn Compton House.
Thomas J Thomas (32 oed), *Chemist & Optician*, *Male Nurse*, 9 Allt Goch? Yn gweithio yn Llanberis?
John O (Jack) Hughes (30 oed), wedi dod i'r *Medical Hall* yn 1936. Mae cof gennyf o alw yn ei siop yn y 50au cynnar ar fy ffordd o'r ysgol gynradd, i gael rhyw eli melyn tywyll at y 'defaid' oedd gennyf fi a llawer plentyn arall ar ein dwylo. Fe ymadawodd Jack Hughes â Llanberis yn 1956, i gadw siop *Chemist* yng Nghaernarfon. Roedd cyfeiriad ato'n dathlu ei ben-blwydd yn gant oed yn rhifyn Mawrth 2007 yr *Eco*.

Rhwng 1941 a 1945, roedd Compton House yn cael ei ddefnyddio gan y fyddin, fel '*Officers Mess*'. Roedd posteri yn ei ffenestri yn annog pobl i brynu *War Bonds*.

Ym 1950, ymgartrefodd Ieuan Ellis Jones yn Compton House a sefydlu Siop *Chemist* yno.

Bu yno hyd ei ymddeoliad ac fe'i dilynwyd gan Mr Gartside, a gymerodd yr adeilad a'r busnes drosodd. Yn y ganrif bresennol, daeth cwmni fferyllwyr Rowlands i gadw'r busnes yn Compton House hyd at fis Medi 2023 pan gaewyd y busnes yno gan y cwmni.

Ym mis Tachwedd 2023, prynwyd Brook House gan gwmni Fferyllwyr Llŷn, ac agorwyd fferyllfa newydd sbon yno dan yr enw 'Fferyllfa I Ellis Jones', ar ôl ein cyn-fferyllydd arbennig!

**Ffynhonnell arall a ddefnyddiais oedd '*Trade Directory* 1895'.**

Oddi mewn i hwn, roedd rhestr o fusnesau oedd yn bodoli yn Llanberis ym 1895. Yn eu mysg:
Richard Hughes, Dôl Peris, *Chemist*;
William P Williams, High Street, *Chemist* — mwyf tebyg yn y Medical Hall, a oedd hefyd yn Swyddfa Bost erbyn hyn;
Joseph Hobley, High Street, *Grocer, Ironmonger, Druggist* — yn Glasgow House, rwy'n tybio.

**Eglurhad o leoliad tai a siopau Llanberis a enwir gennyf, gyda llun ambell un!**

Dôl Peris – y gwesty drws nesaf i Siop Spar;
Compton House – lleoliad hen Siop Chemist I Ellis Jones a Rowlands yn ddiweddarach;
Halford Hill – y tŷ mawr, traddodiadol, cyntaf a welwch, ar eich chwith wedi i chi ddod i mewn i Lanberis o gyfeiriad Caernarfon;
Glasgow House - ar gornel y Stryd Fawr a Stryd y Farchnad, lle'r oedd 'Pete's Eats' gynt.
Medical Hall – lleoliad Siop Joe Brown heddiw, tros y ffordd i Gapel Nant Padarn gynt.

**EIFION ROBERTS**

# Egino Stori'r Tir



Yn ystod tymor yr hydref 2022, bu rhai o ddisgyblion cynradd ac uwchradd lleol yn trafod eu syniadau i wireddu dyfodol iach, diogel a ffynianus i bobl ac i natur. Mae ein pobl ifanc hefyd wrth eu bodd yn dysgu ynglŷn a'u bro a'i warchod – a dyna oedd yr hadyn gwreiddiol ar gyfer prosiect 'Stori'r Tir Dyffryn Peris'.

Cyflwynwyd syniadau helaeth ganddynt, a bu i'r cynulliad oedolion eu cysidro yn ofalus cyn mynnu y dylai'r syniad arbennig hwn o gasglu a chreu storiau o'r newydd er mwyn annog gofal bro fod yn ran blaenllaw o Gynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol Dyffryn Peris.

Ers cyhoeddi'r cynllun, mae grŵp o wirfoddolwyr lleol wedi datblygu syniad y bobl ifanc ymhellach a chreu prosiect newydd er mwyn ysgogi a datblygu rhwydweithiau a gweithiau creadigol yn lleol. Mae traddodiad arbennig o gasglu a rhannu straeon yma eisoes, a gobaith mawr y prosiect hwn yw adfywio ac ail-gynnau diddordeb ynddynt ac annog mwy o gydweithio, cyfeillgarwch a chyd-greu cymunedol.





Yn dilyn cyfnod o ymchwilio, cynhaliwyd digwyddiad EGINO ar yr 2il o Fawrth yn Y Ganolfan, Llanberis. Caswom glywed am y syniadau cychwynnol i'r gwaith yma, a gwahodd syniadau creadigol gan y rhai a oedd wedi ymgynnull.

Mae'r lluniau o ddydd Sadwrn yr 2il o Fawrth yn dangos amrywiaeth o eitemau a ddaeth pobl gyda nhw, pob un gyda chysylltiad â'r tir lleol. Cawsom hefyd daith gerdded a pherfformiad dan arweiniad Emily Meilleur gyda'r nod o ddod â phobl i ymdeimlad dyfnach o gysylltiad hefo'r tir.

Mae syniadau gwych hefyd wedi dod i law gan ddwy ysgol leol sy'n awyddus i gyd-weithio ag awduron ac artistiaid lleol i ail-ddychmygu chwedloniaeth ac ymchwilio enwau caeau a chofebion yr ardal.

Er bod y ffenest i gyflwyno syniadau creadigol sy'n cyfleu Stori'r Tir wedi pasio (28ain o Fawrth), bydd cyfnod creu y gweithiau yn rhedeg tan





ddiwedd Gorffennaf a bydd arddangosfa yn ystod Mis Medi. A fydd eich gwaith chi yn eu plith?

Mae rhywfaint o gyllid ar gael i gefnogi cydweithio neu os yw costau yn rwystr i greu gweithiau, a'r symiau hynny yn ddibynol ar nifer y ceisiadau ddaw i law.

Os hoffech ddysgu mwy am y prosiect ewch i [www.utopiasbach.org/storir-tir-dyffryn-peris](www.utopiasbach.org/storir-tir-dyffryn-peris) neu anfonwch ebost at storirtir@gmail.com

# Y Ddraig Goch

Creadur dychmygol ydy draig yn perthyn i fytholeg sawl cenedl drwy'r byd cyfan, felly sut y daeth y ddraig yn symbol i ni'r Cymry? Y syndod yw cymaint y tebygrwydd i'w ei rhinweddau ledled byd. Anifail anferth gwaed oer, croen cennog coch yn chwythu tân ac yn hedfan - ac roedd pawb ei ofn.


Mewn sawl gwlad lladdwr y ddraig gaiff ei ddathlu, yn aml a dydd i'w goffâu am ei ddewrder. Ond nid felly yng Nghymru. Nid yw'n symbol o frenhiniaeth ond yn symbol o'n cenedl gyfan, o'n hunaniaeth fel pobl. Partneriaid agos ydi ofn a pharch a rhyw barchedig ofn fu ac sydd i'r ddraig Gymreig.

Mae dwy chwedl am ddreigiau yng Nghymru a'r ddwy yn mynd a ni'n ôl at ein cyndadau – y Brythoniaid. Y Brythoniaid oedd yr ymfudwyr cyntaf i diroedd Prydain wrth i'r rhew gilio ar ôl yr oes rhew olaf. Yna fe ddaeth tonnau eraill o fewnfudwyr, sef y Sacsoniaid.

Mae llawer ohonom yn gyfarwydd â'r frwydr rhwng Draig Goch y Cymry a draig wen yr Eingl Sacsoniaid. Y Sacsoniaid oedd yn ymosod a meddiannu tiroedd y Brythoniaid. Pob Calan Mai byddai'r ddwy ddraig yn ymladd a sgrechiadau arallfydol yn peri ofn anferthol i'r bobl yn ôl chwedl Lludd a Llefelys. Lludd oedd brenin y Cymry a'i bencadlys yn Llundain. Cafwyd mai Caergrawnt oedd canol y deyrnas ac yno roedd yr ymladd yn digwydd.

Gorchmynnodd Lludd i dwll enfawr gael ei gloddio yno gan gladdu casgen fawr o'r medd gorau ynddo a'i orchuddio a'r sidan mwyaf moethus.

Bu i'r dreigiau ymladd yn hirfaith ond o flino aethant i orwedd ar y gwely sidan a disgyn i mewn i'r gasgen fedd. O gael medd mor flasus rhaid oedd ei yfed gan ddisgyn i drwmgwsg. Lapiodd Lludd y ddwy yn y sidan a'u cludo i gell garreg ddiogel yn Eryri. Dinas Emrys oedd y lle hwnnw.




Mae'r chwedl yn ail godi yn y 5ed ganrif pan fu rhaid i Gwrtheryn, brenin y Cymry, ddianc o afael y Sacsoniaid yn Llundain a chodi caer gadarn yn Eryri. Ceisiodd godi'r gaer ar gopa bryn serth gan fod yno ddŵr yn codi o lyn tanddaearol, rhywbeth od iawn ar ben bryn ond yn ffaith gywir.

O godi'r muriau yn ddyddiol roeddynt wedi chwalu'r bore wedyn. O holi ei gynghorwyr dywedwyd wrtho y byddai'n rhaid lladd mab nad oedd iddo dad a chymysgu ei gwaed a chalch, a thaenu'r gymysgedd dros y cerrig wrth eu gosod.

Cafwyd hyd i fachgen ifanc yng Nghaerfyrddin o'r enw Myrddin Emrys oedd a mam ond a thad 'o'r byd arall'. Ond buan y sylweddolwyd fod gan y bachgen bwerau llawer cryfach na rhai dewiniaid y brenin. Llwyddodd i achub ei hun a datrys y broblem adeiladu'r castell hefyd.

Rhaid oedd cloddio i'r graig ar ben y ddinas meddai. Yno cafwyd ogof fawr a llyn yn ei ganol. Yn y llyn roedd yna ddwy gist garreg lle'r oedd y ddwy ddraig yn cysgu. Roedd sŵn a chryndod adeiladu yn ystod y dydd yn deffro'r dreigiau a'u cyffroi. O weld ei gilydd rhaid oedd brwydro dros y nos gan grynu'r sylfaeni adeiladwyd yn y dydd a'u chwalu.

Ni fu'r ymladd yn dod i ben yn fuan ond proffwydodd Myrddin mai'r ddraig goch fyddai'n ennill yn y pen draw gan erlyn y ddraig wen o'r mynyddoedd. Ac felly y bu. Adeiladwyd y castell yn llwyddiannus a'i enwi ar ôl y bachgen ifanc o ddewin, sef Dinas Emrys.

Yn 1945 aeth archeolegwyr ati i gloddio'r safle a darganfuwyd ffynnon ac adfeilion caer yn dyddio o gyfnod Gwrtheyrn. Roedd y waliau i gyd yn dangos eu bod wedi eu hail-adeiladu sawl gwaith. Ai dyma safle'r chwedl?

Gallwch gerdded i Ddinas Emrys o Fferm Craflwyn, sydd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyrion Beddgelert.



# Crwydro Gerddi (Bodnant yn y gwanwyn)

Ysgrifennais fy erthygl Crwydro Gerddi gyntaf am Ardd Bodnant a hynny yn ystod mis Gorffennaf!

Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai Bodnant yw un o fy hoff erddi mawr. Dydw i ddim yn ymddiheuro am ei chynnwys unwaith yn rhagor, gan i mi gael fy synnu am ba mor wahanol oedd yr ardd yn edrach ar ddechrau mis Mawrth chadael a'r haf. Roedd yna wynt main, ond fe ddaeth yr haul allan ar adegau a gorau oll, wnaeth hi ddim bwrw!

Mae'r gŵr a minnau wedi ymaelodi efo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am flwyddyn, felly i gael gwerth ein pres mae'n rhaid ymweld â gwahanol lefydd yn ddigon aml. Dydy hi ddim yn siwrne hir o fro'r Eco, tua 40 i 45 munud wrth ddilyn yr A55, gan ddibynnu ar lif y traffig. Roeddwn i hefyd wedi darllen yn rhywle, cyn i ni gychwyn, bod llawer o lwyni a choed wedi blodeuo yn gynharach nag arfer eleni, felly roeddwn yn edrych ymlaen yn arw at gael gweld yr ardd yn ei lliwiau gwanwyn.

Mae gen i sawl '*hellebore*' yn fy ngardd ac maent yn hynod o hardd yn eu blodau am sawl mis, felly roedd gweld rhai tra gwahanol ym Modnant yn fendigedig. Roeddwn i wedi dotio efo'r *hellebore* piws tywyll Ranunculacea Helleborus x hybridus Harvington Smokey Blue - mi f'yswn i wrth fy modd medru ychwanegu un at yr ardd acw.



Roedd yr un pinc yma hefyd yn werth i'w gweld - ond dim syniad pa fath oedd hi gwaetha'r modd.




Roedd y rhai gwyn yma, *Helleborus x hybridus Ashwood Strain* hefyd yn hyfryd



Cafodd Gardd y Gaeaf ei chreu nôl yn 2012 er mwyn arddangos blodau gorau'r gaeaf. Dewiswyd y planhigion yn benodol er mwyn cynnig lliw, persawr a gwead yn ystod misoedd oeraf a thywyllaf y flwyddyn. Roedd grug lliwgar a rhisgl coesau'r dogwood yn lliw oren hyfryd, heb son am sawl math o gennin pedr.









Ond yn ogystal â grwpiau bach o wahanol flodau yng Ngardd y Gaeaf roedd cyfle hefyd i weld cennin pedr ar eu gorau ar raddfa fawr ar y ddol. Roedd gwahoddiad i dynnu lluniau - felly doedd dim angen ail gynnig!







Ond roeddwn wedi edrych ymlaen at gael gweld coed a llwyni'n llawn blodau yn ogystal â'r blodau agosach i'r ddaear.

Roedd rhai o'r coed *rhododendron* eisoes yn eu blodau a bydd llawer mwy i'w gweld yn y misoedd nesaf.






Roedd rhai o'r coed *magnolia*'n fawr iawn (dim gobaith o'u tyfu nhw acw) ond roedd modd eu gweld a'u gwerthfawrogi'n agos yn ogystal ag o bell.









Mae'r Felin Binnau gyda'i lyn dŵr hirsgwar bob amser yn fy nghyfareddu. Wrth gwrs doedd dim lili'r dŵr yn arnofio ar ei wyneb yr adeg yma o'r flwyddyn, gan eu bod yn suddo o dan y dŵr dros fisoedd oer y gaeaf. Ond mi oedd adlewyrchiad y coed *magnolia* pinc yn lliwio'r dyfroedd tywyll yn hynod o hardd.



A dyna daith arall diddorol a difyr o gwmpas Gardd Bodnant wedi dod i ben. Panad bach a theisen cyn troi am adref. Wedi mwynhau fel arfer ac eisoes yn edrych ymlaen at ymweliad arall, ar adeg arall o'r flwyddyn.

# Ar ben arall i'r lein

Y 3ydd o Fawrth oedd y diwrnod agoriadol ar yr afonydd. A naddo, ni chafodd yr enwair fynd am dro i lawr y Finiog. Fel un hen ffasiwn, dwi'n trio 'ngorau i lynu at yr hen draddodiadau pysgodfaol. A'r un pwysicaf ohonyn nhw yw: os oes eira ar yr Wyddfa a'i chriw, yna paid â mentro allan. Ond fel petai yna fagnet yn fy nhynnu, mi fu'n rhaid mynd ar Bont Crawia at ganol dydd i weld os oedd ychydig o *bryfaid priciau* wedi deori ac yn cynhesu eu hunain ar feini'r bont. Yn anffodus, ofer fu'r siwrnai.

Yr unig siom a ddaeth o hyn i gyd oedd bod copïau o blu Dr Shelton Roberts yr ydw i wedi eu clymu, yn enwedig Llwyd yr Wydd, yn edrych arnai'n ddigalon o'r bocs plu.

Er fy mod wedi cadw at y traddodiad, roedd yna rai yma ac acw yn ei thrio hi. Ond doedd dim lwc i'r rhain chwaith, er bod un neu ddau wedi bod ar garlam yn chwipio'r dyfroedd o Gaernarfon i fyny at Stablau. Dim parch at yr hen draddodiadau yn ôl pob golwg! A tydi hi'n bechod d'wch na fuasai rhai eraill o gwmpas yr hen le 'ma yn dangos yr un brwdfrydedd ac yn parchu'r dyfroedd, oherwydd mae tipyn o fandaliaeth yn codi ei ben eto. Dyma ddwy enghraifft i chi. Ar y Dywarchen, mae clo un o'r cychod wedi ei falu ac un o'r cychod wedi ei ollwng yn rhydd. Gobeithio bydd hwnnw'n ôl ar yr angorfa erbyn y diwrnod agoriadol. Ar Cwellyn, mae un o'r cychod wedi unai ei wthio i'r llyn, neu wedi cael ei ddwyn. Dros y dyddiau nesaf, bydd yna dipyn o waith mynd o gwmpas y lle i drio cael gafael ynddo – os yw yno o gwbl, hynny ydi.

Problem y mae'n bosibl delio â hi yw'r fandaliaeth. Ond problem nad aiff i ffwrdd yw'r hyn sy'n digwydd ar Lyn Padarn gyda'r chwyn ymledol yma. Fy marn i ydi ei bod yn amhosib cael gwared â'r peth: does ond eisiau i chi fynd am dro o ryw 60 milltir i Dal y Llyn i weld be sy'n digwydd yno. Trist iawn, o feddwl nad oes llawer o flynyddoedd ers pan oedd y llyn yma'n un o berlau pysgodfaol Cymru, a chael noson yn y gwesty a rhyw ddiwrnod o 'sgota wedyn yn brofiad arbennig. Nid pysgotwyr yn unig oedd yn cael eu denu yno, oherwydd roedd y brithyll mawr wedi hen ddysgu dod i'r golwg pan fyddai trigolion lleol ac ymwelwyr yn taflu ychydig o fara ac ati i'r dŵr ger y lanfa. Mi oedd yn werth gweld y pysg mawr yn gwledda. Roedd hi'n dipyn o sioe, a doedd yr un ohonom – yn bysgotwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol – yn amharu â nhw. Ond fel gyda phopeth arall, mi ddaeth rhyw garfanau o ddihirod heibio a thynnu'r cwbl allan. Roedd pawb yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol, ond doedd yr awdurdodau'n gwneud dim – dim ond pysgod oeddent wedi'r cwbl, ac mae dwyn pethau felly yn cael ei ganiatau yn ôl pob golwg.

Pan oeddwn draw yno'n cael pleser o 'sgota'r llyn, un o'r pethau a dynnodd fy sylw oedd amlinelliad o frithyll yn gerfedig ar lechen rhiniog y gwesty. Y mis diwethaf, soniais am amlinelliad o'r fath oedd ar riniog drws cefn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog. Faint o westai a phlasdai Sir Feirionnydd sydd ag atgof tebyg o'r oes a fu tybed? Os oes rhywun yn gwybod am rywbeth tebyg yma yn ardal Arfon, gadewch i mi wybod.



**Rhiniog drws gwesty Tal y Llyn**

Efallai eich bod wedi cymryd sylw o'r arian sy'n cael ei dalu gan Ymddiriedolaethau Afonydd Cymru i'w staff. Arian ydi hwn sy'n dod yn wreiddiol trwy law Llywodraeth Cymru. Cyflogau yn unig yw hyn, cofiwch. Fel y soniwyd yn rhifyn Ebrill, rydym fel Cymdeithas Bysgota leol wedi gwneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru i gael gwybod beth yw'r cyfanswm ariannol sy'n cael ei drosglwyddo i'r cyrff afonydd yma. Fe aeth y cais cyntaf am y wybodaeth i mewn ar yr 16eg o Ionawr, ac er i ni gysylltu â'r Comisiwn Gwybodaeth ddwy waith mae ein cais yn dal heb ei ateb. Mae i fod yn ddeddf gwlad fod ymateb i ddod i law o fewn ugain diwrnod. Be goblyn sy'n mynd ymlaen tybed?



**Rhegen-yr-ŷd**



**Egarych Melyn Budur – rhywbeth tebyg i Felyn Budur Alwyn 'Barbar' Williams, Llanrug**

Pwy sy'n cofio'r '*Game Fair*' a gynhaliwyd yn y Faenol ym mis Medi 2022 a 2023? Dyddiau arbennig i brofi'r holl bleserau a manteision sydd o fwynhau ein cefn gwlad a'r gweithgareddau cysylltiedig, yn enwedig y brwdfrydedd oedd yn amlwg gan rai oedd yn profi pysgota am y tro cyntaf. Dyma i chi beth pwysig heddiw i ddenu ein to ifanc allan oddi wrth y cyfrifiaduron, yn de. Mawr oedd y disgwyl am eleni, ond mwyaf sydyn daeth y newyddion fod popeth wedi ei ganslo a bod y sioe yn cael ei symud eleni i diroedd 'Ystad Glannau Wysg', De Cymru. Siom fawr yn de! Mawr oedd y cyffro, a mawr oedd y stwr, a phawb lawr *'south'* 'na yn clodfori mai yno y dylai popeth da gael ei gynnal. Wel, da neu beidio, y newyddion sydd newydd ein cyrraedd yw bod y cyfan wedi ei ganslo! Hen dro i'r De, yn de!

Daeth tipyn o newyddion calonogol eto at ddiwedd Chwefror, sef bod nifer o eogiaid mawr wedi eu gweld yn neidio yng ngheg y Fenai ger Belan. Ble mae pen taith y rhain tybed? Ond rhaid ystyried bod y Fenai'n rhan o daith bwysig mudo'r pysgod yma sydd ar eu ffordd i afonydd y gogledd, fel y Conwy a'r Ddyfrdwy. Y Ddyfrdwy yw'r unig afon yn y gogledd ble mae trap mesur a rhoi tag ar yr eog. Eleni mae nifer o'r pysgod yma wedi eu marcio, pysgod â'r Ddyfrdwy yn ben eu taith. Pwy a wŷr yn de, o ddilyn yr holl ymchwiliadau a chwythu bygythion, bod eisiau cadw uniondeb genetig i bob afon unigol, felly daeth polisi CNC i rym i atal stocio. Wel, tydw i a'r criw o'm cwmpas ddim yn wyddonwyr; ond mae amser a phrofiad wedi ein dysgu mai sbwriel yw hyn i gyd. A dyma enghraifft i chi! Flynyddoedd yn ôl, pan fyddwn yn 'sgota Afon Conwy fe ddaliwyd eog braf yn Mhwll yr Afanc sydd rhwng Betws y Coed a Llyn Tyn y Cae. Be oedd ar gefn y 'sgodyn yma ond 'Floy tag' melyn. Tag yw hwnnw er mwyn gallu adnabod rhan o siwrnai'r eog. Ble oedd hwn wedi bod cyn dod i Afon Conwy? Yn dilyn ymchwil, fe ddarganfuwyd ei fod wedi ei farcio ar y Ddyfrdwy ddwy flynedd yn gynharach. Be oedd hwn, felly, yn ei wneud yn Afon Conwy? Wel, chwilio am gymar wrth gwrs. Pa bryd y bydd y dysgedigion yma'n sylweddoli, fel y mae pawb sy'n ymwneud â chefn gwlad yn ei wybod, bod rhaid cael gwaed newydd er mwyn i'r stoc gael ffynnu a chadw'n iach? A dyna ddiwedd ar y wers yna!

Dros yr amser pan yw'r enwair yn segur acw, byddaf wrth fy modd yn mynd trwy fy nghasgliad o lyfrau ac ati sy'n ymwneud â'r grefft. Yr un sy'n cael fy sylw ar y funud ydi 'Plu Stiniog' gan Emyr Evans. Dyna i chi berl o lyfr! Oes, mae'n rhaid codi cap i griw Stiniog am gadw a chofnodi eu hetifeddiaeth bysgodfaol. Mae'r cyfeiriadau at blu sgota yn arbennig; a'r rhai sy'n fy niddori ar y foment ydi plu gydag adain Rhegen-yr-ŷd. Pwy sy'n cofio'r aderyn hyfryd yma'n swnian o gwmpas y lle flynyddoedd yn ôl? Rwy'n ei gofio'n iawn ar gaeau fy nghartref, Cae'r Tŷ a'r tyddynod cyfagos: Fron, Cae Main, Coed Mawr a'r Caeau Uchaf. Y pechod mawr, mae'n siŵr, yw nad yw trigolion y fro erioed wedi clywed ei sŵn hudolus o gwmpas y lle.

A gan bydd tymor Llyn y Dywarchen wedi agor ar y 1af o Ebrill, dyma ddau bennill a anfonwyd at 'Isallt' gan W R Hughes o Ddolwyddelan sydd wedi eu cynnwys yn 'Plu Stiniog'.

'Rwy'n anfon ichwi anrheg
O 'Regan Rych' ei hoergeg
Cewch blu pysgota oddi ar
Ei gwar neu ei froneg.

Mae brithyll Dolwyddelan [*Dywarchen i ni wrth gwrs*]
Yn hoff o blu yr Regan
Gwnewch chithau y ffurf i'w denu hwy
Cewch fwy na mwy i'r crochan.

Y si y ffordd hyn yw bod rhyw grochan neu'i gilydd o Lanrug yn disgwyl am yr helfa o Ddywarchen eleni!

**Huw Price Hughes**

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## CRYNODOEB O GOFNODION CYFARFOD 6ED CHWEFROR, 2024

**Cofnodion 9fed Ionawr 2024**
Cafwyd y Cofnodion uchod yn gywir:

**Materion o'r Cofnodion**
**Cysgodfa Bws Dinorwig** - Clerc wedi cysylltu â Chontractwr am bris i ail neud y to.

**Gordyfiant Bro Elidir** - Mae'r Clerc wedi cysylltu eto gydag Adra, ac yn dal i ddisgwyl ymateb.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Cysgodfa Bws Rhiwlas** - Y clerc wedi cyfarfod a swyddog o Gyngor Gwynedd. Byddwn yn trefnu i osod cysgodfa yn y misoedd nesaf.

**Cynllunio**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
*C24/0018/18/DT - 12 Y Ddôl, Bethel*
Estyniad i'r tŷ presennol a newidiadau mewnol- Dim gwrthwynebiad.

**Canllawiau Rhoddion a Ffurflen Gais**
Wedi cryn dipyn o waith, mae'r canllawiau a ffurflen gais wedi ei dderbyn. Os bydd rhywun yn dymuno rhoi cais, mae posib derbyn pecyn gan y Clerc neu ar wefan y Cyngor. Bydd gofyn i'r ceisiadau gyrraedd y Clerc cyn Medi 20fed. Bydd y Cyngor yn trafod yng nghyfarfod mis Hydref yn edrych ar bob cais yn unigol, ac yn gwneud penderfyniad ar ofal neu ddiffyg rheolaeth ariannol gyllidol bob mudiad.

**O Gwmpas y Bwrdd**
**Cysgodfa Newydd Gwaelod Bethel**
Does prin ychydig o fisoedd ers i'r Cyngor Cymuned brynu a gosod y gysgodfa yn ei le - ac yn barod mae un panel wedi ei falu. Bydd panel arall yn cael ei ail osod yn fuan.

**Ffosydd Lôn i Gelli Gyffwrdd**
Eleni, mae'r ffordd hon wedi gweld llifogydd sobor sydd wedi arwain at weld y lôn yn gorfod cael ei chau. Nid yw'r dŵr yn rhedeg dim gan fod y ffosydd wedi cau i gyd, Cais ar i Gyngor Gwynedd drefnu i glirio'r ffosydd fel bod dŵr yn llifo.

# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

## 16 Ionawr 2024

**1. Derbyn croeso gan y Cadeirydd**
Estynnwyd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

**2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 19 Rhagfyr 2023**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 19 Rhagfyr 2023**
Cais am loches bws ger Y Glyntwrog - cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Hamdden.

**4. Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown Berwyn Parry Jones, sef aelodau dros Lanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**5. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod cyn y cyfarfod yma i sefydlu praesept ar gyfer 2024/2025.
Penderfynwyd: Codi praesept o £85,000 ar gyfer 2024/2025.

**6. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar yr 8ed o Ionawr.
Pwrpas y cyfarfod oedd:

1) Sefydlu trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch aelodau etholedig o'r cyngor, ei gontractwyr, staff a gwirfoddolwyr.
2) Sefydlu taenlen amser i gario allan asesiadau risg ar wahanol weithgareddau.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ymgymryd a'r gwaith i greu asesiadau risg ar gyfer gweithio yn unigol, ac wedyn creu asesiadau risg i'r cynllun dosbarthu bwyd, y Gampfa, gweithio mewn tywydd garw ac asesiad risg i ymwneud ag aelodau blinderus o'r cyhoedd.
Bydd y pwyllgor yn cyfarfod nesaf ar 6ed Chwefror i ystyried yr asesiadau risg ar gyfer gweithio yn unigol.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**7. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 8ed o Ionawr 2024.
Materion a drafodwyd-
a) Ysgrifennu a chyhoeddi COA (FAQ) ynglyn â thorri gwair - i'w roi ar safle we'r Cyngor.
b) Asesiadau risg - dyddiad wedi ei drefnu, angen cyfarfod brys ynglyn â chyllido'r gwaith.
c) Disgwyl ymateb y contractwr torri gwair i drafod digwyddiad yn y fynwent mis Rhagfyr. Heb glywed ymhellach gan yr achwynwr.
ch) Codi ffioedd 5% am 2024/5.
d) Pryder am gyflwr y lôn i'r fynwent (o'r lôn fawr i'r eglwys)
Nodwyd fod y blaenoriaethau blynyddol, a gosod arwyddion a phlaciau a chreu polisi Cofebion am 2023/24 ar fin cael eu cyflawni.

Blaenoriaethau ar gyfer 2024/25-
a) Parhau a'r drefn asesiadau risg ar y cofebion a'r fynwent (gwaith blynyddol)
b) Parhau i gystadlu yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn (targed blynyddol)
c) Parhau i fonitro gofod yn y fynwent (gwaith blynyddol)
ch) Polisiau gwyrdd a bioamrywiol arbennig i'r fynwent
d) Adolygu rheolau'r fynwent (targed blynyddol)
dd) Adeiladu wal a ffensys yn y fynwent a chreu gofod trwy leihau'r maes parcio (2024/25 ymlaen)
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**8. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden ac Adnoddau**

Nid oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers y cyngor llawn diwethaf ond adroddwyd fod y pwyllgor yn cyfarfod ar 25ain o Ionawr 2024.
Adroddwyd ymhellach fod pris wedi ei dderbyn ar gyfer adnewyddu ffens ar gae chwarae Pwll Moelyn.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**9. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**
Adroddwyd eu bod wedi cyfarfod cyn y Nadolig i drafod cais am grant o'r gronfa ddewisol. Roedd y pwyllgor wedi derbyn adborth positif iawn am y cyfraniad yn enwedig gan ei fod yn gallu cael ei rannu cyn y Nadolig.
Adroddwyd fod y trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd yn parhau gyda nifer o dderbynwyr yn sefydlog.
Bydd angen trefnu cyfarfod yn y dyfodol agos i drefnu trafodaethau ar gyllideb y cynllun.
Penderfywyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**10. I gymeradwy praesept ar gyfer 2024/2025.**
Penderfynwyd: Praesept ar gyfer 2024/2025 yn £85,000.

**11. Ceisiadau cynllunio**
Rhif y Cais: C23/0987/23/CC
Gwaith i goed sydd yn destyn gorchymyn gwarchod coed. Bryn Teg Caravan Park, Llanrug.
Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad ond sicrhau fod coed yn cael eu plannu yn eu lle.

# Cymru o'r cychwyn cyntaf

Fel y berl lapis lazuli mae'n debyg y meddyliwn am ein planed las, fel yn y lluniau lloeren, ac yn ymddangos yn rhyfeddol o sefydlog. Ond rhith yw hyn gan fod y Ddaear a'i atmosffer yn newid yn barhaus. Mae'r platiau tectonig yn newid y cyfandiroedd ac yn symud dan ein traed, yn codi mynyddoedd a'u dymchwel a symud llawr pob cefnfor gan newid ein hinsawdd yn gyson.

Mae newid cyson o'r fath wedi nodweddu'r Ddaear ers ei dechreuad tua 4.5 biliwn o flynyddoedd yn ôl. O'r cychwyn cyntaf, roedd gwres a disgyrchiant yn siapio esblygiad y blaned. Mae archwilio'r gorffennol hwn yn cynnig yr unig bosibilrwydd i ni ddeall tarddiad bywyd ac, efallai, ei ddyfodol.

Daeth y Ddaear, fel unrhyw blaned arall, o lwch cosmig. Hwnnw'n grwpio gyda'i gilydd i ffurfio gronynnau, y gronynnau yn raean, y graean yn beli bach, yna peli mawr, yna yn blanedau bach. Wrth i'r planedau bach ddod yn fwy drwy wrthdaro a'i gilydd, gostyngodd eu niferoedd. O ganlyniad, gostyngodd nifer y gwrthdrawiadau rhyngddynt.

Roedd llai o eitemau ar gael i'w cronni yn golygu ei bod yn cymryd amser hir i adeiladu planed fawr. Credir y gallai tua 100 miliwn o flynyddoedd basio rhwng ffurfio gwrthrych sy'n mesur 10 cilomedr mewn diamedr a gwrthrych maint y Ddaear.

Amcangyfrifir bod y Ddaear yn 4.54 biliwn (4,540,000,000) o flynyddoedd oed, plws neu finws tua 50 miliwn(50,000,000) o flynyddoedd.

Pelen o greigiau a'r canol wedi toddi oedd y ddaear gynnar hon ond wrth oeri daeth y creigiau soled cyntaf i'r wyneb fel cyfandiroedd bach tua 3.3 biliwn mlynedd yn ôl. Mae llawer o bobl wedi clywed am Pangaea, ond cyn Pangaea, rhwygodd tiroedd y Ddaear a chwalu'n blatiau ac yna dod yn ôl at ei gilydd i ffurfio uwch gyfandiroedd dro ar ôl tro. Mae'r cylch hwn wedi bod yn digwydd ers o leiaf 3.0 biliwn o flynyddoedd olaf hanes y Ddaear.

Yr uwch gyfandir olaf i ffurfio oedd Pangea (Hen Roeg am 'cyfanfyd' neu 'byd cyfan'). Bryd hynny gallech gerdded o Dde America i Affrica, neu o Affrica i Awstralia ac o Awstralia i Ewrop. Yna chwalodd Pangea yn araf, araf i'r cyfandiroedd da ni'n eu hadnabod.

Ond nid yw'r mudo drosodd. Hyd yn oed wrth i chi ddarllen hwn, mae cyfandiroedd cyfan yn symud. Mae Cymru yn symud rhwng 2.5cm a 10cm y flwyddyn oddi wrth America. Felly mae hynny rhwng 12.5 a 50m dros gyfnod o 500 mlynedd. Ond lle oedd Cymru yn yr holl symud yma? Wel, yn ôl pob tystiolaeth dyma'r darlun. Roedd tair o blatiau cyn gyfandiroedd wedi taro i'w gilydd ar chwalu Pangea ac mae ynysoedd Prydain yn ganlyniad i hyn. Darnau o'r plât ffurfiodd ogledd America ydi gogledd yr Alban a Sir Fôn.

I lawr hanner ffordd i begwn y de oedd Cymru 550 miliwn (Ma) mlynedd yn ôl.

Felly mae Cymru wedi bod yng ngwres y cyhydedd, o dan y môr ac yna dan y rhew. Gwaelod môr oedd pen yr Wyddfa ar un adeg.

Mae'r ynysoedd wedi cael eu siapio gan nifer o rewlifiannau. Mae'n bosibl bod y rhain wedi digwydd pump neu chwe gwaith yn ystod y 750,000 o flynyddoedd diwethaf.

Dechreuodd y cyfnod rhewlifol olaf hwn tua 33,000 o flynyddoedd yn ôl ac ar ei hanterth, tua 22,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd llen iâ mawr yn gorchuddio Cymru gyfan, ac yn mynd mor bell i'r de ag ardal Canolbarth Lloegr ac eithrio'r copaon uchaf un.

Ar yr amser yma doedd Prydain ddim yn ynys ond yn rhan o dir mawr Ewrop ond doedd dyn heb ddod yma eto. O gilio'r rhewlif olaf tua 13,000 mlynedd yn ôl y daeth dynion i'r ynysoedd yn barhaol.

Felly, mewnfudwyr da ni i gyd, pob un copa walltog ohonom.


***Gwyndaf Hughes***




*Dyma Gymru fach hanner ffordd i lawr tua pegwn y de 550 miliwn (Ma) mlynedd yn ôl.*



*Symud tua'r gogledd ond yn dal yn hemisffer y de o dan y cyhydedd 375Ma*



*Ffurfio'r cyfandiroedd da ni'n eu hadnabod*


## HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

## SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

ESTD 1973

## WAVELLS

AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI

DELI A CHIGYDD O FRI

Bryn ac Angela Williams

LONDON HOUSE LLANRUG

yr ŵyn lleol mwyaf blasus

selsig cartre

cigoedd parod i'w bwyta

archebion ar gyfer y rhewgist

(01286) 673574

# Garddio

## EBRILL

Mae sŵn y gwanwyn i'w glywed bellach a chôr y wig yn tiwnio ben bora. Mae angen defnyddio ein holl synhwyrau i'w werthfawrogi'n llawn, ein llygaid yw'r rhai mwyaf cyffredin ond os gymrwch chi funud gallwch ei glywed, ei arogli a'i deimlo. Gallwch hefyd gasglu'r planhigion sy'n dod i'r golwg, beth am gasglu danadl poethion (gan wisgo menyg) a garlleg gwyllt (*Allium ursinum*). Gallwch wneud cawl efo'r ddau yma neu greu '*pesto*' efo'r garlleg gwyllt, ond byddwch yn hollol siŵr eich bod yn casglu'r planhigion cywir (mae arogl y garlleg gwyllt yn arwydd eithaf sicr) yn bennaf oll mwynhewch! Cofiwch beidio hel mwy nag ydach chi ei angen, fel bod digon i bawb. Cofiwch does dim rhaid mentro ymhellach na'ch gardd eich hun chwaith i gasglu dail dant y llew. Pam? Gallwch eu berwi, eu gwasgu ac yna'u ffrio mewn olew olewydd, lemwn a garlleg i wneud *horta*, bwyd Groegaidd traddodiadol!

O'r diwedd mae'n amser mentro allan i'r ardd - ond cofiwch lapio - gall y gwynt fod yn fain hyd yn oed ym mis Ebrill!

Mae hi'n fôr o liw erbyn hyn - melyn y cennin pedr a phinc a gwyn y coed drain duon a gwynion, a'r *malus* a prunus, heb sôn am y coed *magnolia* a'u blodau mawr, hyfryd, gwyn a phinc (gweler lluniau crwydro Gerddi - tud 22).

Os ydach chi wedi plannu coeden mewn potyn, sicrhewch eich bod yn defnyddio compost di-fawn o ansawdd da a'i bwydo'n gyson. Byddai'n syniad i'w symud i botyn mwy bob blwyddyn, neu fynd ati i docio'r gwreiddiau.

Dyma'r adeg i blannu hadau (hir yw pob ymaros)! Mae'r *chillies*, tomatos a'r ciwcymbrau eisoes wedi eu plannu ganol mis Mawrth, mewn *'propogator'*) wel sawl un a deud y gwir. Ac wedyn dwi'n wynebu'r un hen broblem… lle dwi'n rhoi'r planhigion bach sydd wedi egino? Cyngor mewn un cylchgrawn garddio oedd tynnu'r gorchudd/caead oddi ar yr hadau sydd wedi egino a'u gadael yn y *propagator* am gyfnod. Felly mi ydw i wedi dilyn y cyfarwyddiadau a rhoi rhai drawsblannwyd yn y *propagator(s)*. Ond mi fydd yn rhaid i rai drawsblannwyd symud i silffoedd ffenast y tŷ gyda hyn…. mae'n rhy oer yn y tŷ gwydr ar hyn o bryd.. ond fe ddaw haul ar fryn…

Os ydy'n ddigon sych gallwch dorri'r lawnt (gan godi llafnau'r peiriant torri gwair yn uchel) ond os yw'n wlyb ceisiwch beidio troedio'r lawnt yn fwy na sydd raid.





**TASGAU**

1. Daliwch ati i chwynnu os gallwch chi. Mwya'n y byd allwch chi wneud rŵan, lleia'n y byd fydd yn rhaid i chi chwynnu gweddill yr haf.
2. Mis Ebrill yw'r cyfle olaf i blannu coed rhosod gwreidd-noeth (*bare-rooted*) ac mi ddylen nhw flodeuo'n ystod yr haf yma i chi.
3. Hir yw pob ymaros, ond rŵan ydy'r amser i hau blodau blwyddol a pherlysiau! Eleni mi ydw i wedi ceisio cymysgu fy nghompost hadau fy hun. Cymysgais gompost (di-fawn) a deilbridd a wnaethpwyd llynedd, gogru'r ddau a'u cymysgu efo '*Vermiculite*' eleni, ar ôl darllen bod modd creu peth eich hun, a chael fy siomi gan beth oeddwn wedi ei brynu o'r blaen. Yn ôl yr arbenigwyr mae modd defnyddio cyfuniad o gompost di-fawn ffibr coir a *Perlite* neu *Vemiculite*, tywodminiog (*sharp sand*), deilbridd neu *sterilised loam*. Mae rhesymau dros ac yn erbyn y rhain e.e. mae'r coir, *Perlite* a *Vermiculite* yn rhoi strwythur i'r gymysged ac yn dal dŵr yn dda, heb foddi'r hadau. Ond os ydach yn gwylio maint eich ôl troed carbon mae llawer o filltiroedd lôn yn cael eu creu drwy eu mewnforio yma.





Trwy arbrofi gyda gwahanol gyfuniadau y dowch o hyd i'r gymysgedd sy'n gweithio i chi. Ar hyn o bryd dwi'n reit hapus efo'r gymysgedd rydw i'n ei drio am y tro cyntaf eleni.

4. Gallwch ddechrau dyfrio ychydig yn fwy ar y planhigion tŷ hefyd, wrth iddynt ddechrau deffro. Dyma adeg ardderchog hefyd i rannu planhigion deiliog sydd wedi mynd yn rhy fawr i'w potyn. Gallwch ddewis gael naill ai planhigyn iachach nag oedd ganddo'ch chi yn y lle cyntaf, neu greu dau neu dri o rai llai, wnaiff dyfu'n fwy'n hynod o sydyn. Bydd y goeden orennau a'r binwydden acw'n mynd allan yn ôl i'r ardd ym mis Ebrill (gan ddod mewn os ydy'n gado barrug dros nos) ac aiff ambell i gactws Nadolig allan ym mis Mai tan mis Medi.
5. Dyma adeg dda i ail-hadu mannau moel yn y lawnt. Hynod o hapus i dderbyn unrhyw gyngor ar sut i gael gwared â thwrch daear sy'n chwalu fy lawnt i ar hyn o bryd!! Dwi'n caru bywyd gwyllt ond wir mae angen amynedd a gras weithiau!
6. Peidiwch â meddwl mai dim ond yn yr hydref allwch chi blannu bylbiau dyma'r amser i blannu bylbiau sy'n blodeuo yn yr haf, pethau fel lili, gladioli, begonia a'r eucomis. Dim haul? Potiau amdani felly a'u symud fel bo'r angen.
7. Byddwch yn sylwgar. Os oes planhigion megis bonet nain (*aquilegia*) neu bysedd y cŵn wedi hadu eu hunain cadwch nhw a'u teneuo a'u symud i le sy'n gweithio orau i chi yn eich borderi. Ffordd llawer rhatach o greu lliw yn eich gardd.
8. Mae un o'r wyrion wedi penderfynu ei fod o'n hoffi letys, gan fod y crwbanod yn yr ysgol yn bwyta letys. Felly eleni mi fyddai'n rhannu'r broses o blannu amrywiol hadau letys efo fo mewn potyn a'i orchuddio efo bag plastig (*cloche* rhad). Caiff y potyn ei osod yn y tŷ gwydr i ddechrau egino ac yna dod allan i'r ardd, fel bydd hi'n cynhesu, gan obeithio y bydd o a ninnau'n mwynhau cael cnwd o salad ar ein platiau dros holl fisoedd yr haf. Mi fydd yn rhaid ail-hau bob rhyw dair wythnos i sicrhau digon o gnwd drwy'r haf!
9. Dyma'r mis i blannu eich prif gnwd o datws a defnyddio digon o dail i sicrhau digon o gnwd.

***Rhosyn Mynydd***

# DINORWIG

**Ymddiheuriad**
Er fod newyddion y mis diwethaf wedi ei anfon mewn da bryd, mae'n amlwg ei fod yn parhau ar goll yn y post.

**Tywydd**
Mae arwyddion y gwanwyn yn y tir, er gwaethaf wythnosau gwlyb difrifol ac eira ar y mynyddoedd ddiwedd Chwefror a dechrau Mawrth. Gydag Ebrill ar ein trothwy, does ond gobeithio y bydd mwy o heulwen i godi ein calonnau.

**Marwolaeth**
Yn Y Rhewl, Dyffryn Clwyd, bu farw'r Parchg Tudur Rowlands yn 83 mlwydd oed. Cafodd ei eni a'i fagu yn Padarn View, Fachwen, ac aeth i'r Weinidogaeth gyda'r Methodistiaid ac yn ddiweddarach gyda'r Wesleaid. Yn Nyffryn Clwyd y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, ond byddai'n ymwelydd cyson â'r hen ardal. Yn weddol ddiweddar, cefais sgwrs gyda'i chwaer, Glenda, oedd yn aros yn Ninas Dinlle ac ar ymweliad â'r ardal. Roedd hi tua phum mlynedd yn hŷn na Tudur, a gadawodd yr ardal i fynd i nyrsio. Ond roedd gwreiddiau'r ddau yn ddwfn yn y Fachwen, a'r ddau'n mwynhau dychwelyd i brofi unwaith yn rhagor yr olygfa fendigedig o'u hen gartref ar draws y Llyn a thraw am yr Wyddfa. Cydymdeimlwn â Glenda ac â theulu Tudur yn eu colled.

**Cysgodfan Bws Ty'n y Fawnog**
Dros fisoedd y gaeaf dirywiodd cyflwr y gysgodfan; y gwaith coed yn arbennig, gyda'r pren yn pydru ac yn debygol o achosi damwain ddifrifol i unigolyn neu gerbyd yn pasio heibio. Cysylltwyd â Chyngor Gwynedd a chafwyd ar ddeall nad oedd hir oes i'r gysgodfan, yn enwedig o gofio ei bod yn wynebu rhyferthwy'r stormydd. Bellach, mae wedi ei hatgyweirio, a rhaid rhoi clod mawr i'r ddau weithiwr fu yno yn ei thrwsio. Nid yn unig fod y gysgodfan yn lle diogel unwaith eto i ddisgwyl am fws, ond bu'r ddau yn twtio'r ardal o'i chwmpas hefyd. Diolch am waith canmoladwy.

**Gwasanaethau'r Sul yn Nhŷ Elidir, Deiniolen**
(dalier sylw ar y gwahanol amserau)
Mawrth 24: 5.00 pm – Y Parchg Huw Pritchard, Llangefni
Mawrth 3, Sul y Pasg: 3.30 pm – Mr John Roberts, Llangefni
Ebrill 7: 2.30 pm – Mr R. Morris Jones, Caernarfon
Ebrill 14: 5.00 pm – Y Parchg R. O. Jones, Gaerwen
Ebrill 21: 2.00 pm – Y Parchg Anna Jane Evans, Caernarfon
Ebrill 28: 3.30 pm – Y Parchg John Pritchard, Llanberis
Mai 5: 2.00 pm – Mr Arfon Wyn, Ynys Môn
Mai 12: 5.00 pm – Y Parchg Huw Pritchard, Llangefni
Mai 19: 3.30 pm – Y Parch Gwenda Richards, Caernarfon
Mai 26: 3.30 pm – Y Parchg John Pritchard, Llanberis
Mehefin 2: 5.00 pm – Mr Robert Morris, Nantlle
Mehefin 9: 2.00 pm – Y Parchg Nerys Griffith, Caernarfon
Mehefin 16: Oedfa i'w threfnu.
Mehefin 23: 5.00 pm – Y Parchg Gerallt Ll. Evans
Mehefin 30: 3.30 pm – Y Parchg John Pritchard, Llanberis

**Cofion**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r rhai sydd wedi bod yn dioddef salwch dros yr wythnosau diwethaf, yn enwedig Mr a Mrs Neville Thorman Jones, Caradog Place, Deiniolen – wedi gweld eich colled yn yr oedfaon ar y Sul.





## Cornel Ddarllen

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Trystan Elis Morris, Emma Walford ac Alaw Griffiths, cyd-awduron *Sut i Drefnu Priodas Pum Mil*, i ddathlu cyhoeddi'r llyfr ganol Chwefror. Noson hwyliog gyda lot o chwerthin, a chyfle i gyfarfod rhai o'r cyplau fu'n rhan o'r cyfresi teledu Priodas Pum Mil. Dim syndod felly bod hwn ar dop ein rhestr 10 Ucha'.... a does dim syndod gweld *Llythyr Noel* 'nôl yn y 10 Ucha', yn dilyn darlledu rhaglen Mr Bates vs The Post Office, a digwyddiad yn Theatr Seilo yng nghwmni Noel a'i ferch, Sian a'r newyddiadurwr Sion Tecwyn, un o'r rhai sydd wedi bod yn dilyn yr hanes yn agos o'r cychwyn. Roedd yn noson oedd yn gwneud rhywun yn falch - o ddycnwch a dyfalbarhad Noel, Sian a'r postfeistri eraill sydd yn dal i frwydro am gyfiawnder, ac yn flin ar yr un pryd, gyda Swyddfa'r Bost a'r Llywodraeth sydd yn dal i geisio osgoi eu cyfrifoldeb.

Digwyddiad arall difyr oedd darlith gan Jane Aaron, awdur y gyfrol *Cranogwen* yn Pontio. Hwn oedd y tro cyntaf i Ddarlith Goffa Mary Silyn gael ei thraddodi.

Cyfrol hardd sy' wedi cyrraedd y 10 ucha' mis yma ydi *Poems from the Soul*, casgliad o ddwsin o emynau Cymru, gan bobl gyffredin, gyda darluniau cain gan Ruth Jên Evans.

1. *Sut i Drefnu Priodas Pum Mil*, Trystan Elis Morris, Emma Walford ac Alaw Griffiths
2. *Llythyr Noel*, Noel a Sian Thomas
3. *Cranogwen*, Jane Aaron
4. *Helfa*, Llwyd Owen
5. *Yr Apêl*, gol Mererid Hopwood
6. *Llyfr Glas Nebo*, Manon Steffan Ros
7. *Poems from the Soul*, M Wynnn Thomas
8. *Drift*, Caryl Lewis
9. *All the Wide Border*, Mike Parker
10. *Gladiatrix*, Bethan Gwanas


Pob un ar gael o'r siop neu o'n gwefan.

Eirian










ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Dramâu Wil Fôn

## [William Vaughan Jones, 1906 – 1978]

***Rhan gyntaf erthygl a luniwyd gan y ddiweddar Carrie Prys Owen, Ffordd yr Orsaf, Llanrug ac a anfonwyd atom gan ei brawd, Gwilym Morris Jones.***

***Diolch iddo am rannu'r erthygl â ni.***

Roedd Cymdeithas Lenyddol y Waunfawr yn ystod y 1940au a'r 50au yn hynod boblogaidd, gyda nifer o eitemau difyr wedi eu paratoi ar gyfer yr aelodau. Pob pythefnos ar nos Lun yn y gaeaf y cynhaliwyd Cymdeithas y Waun, ac yng Nghroesywaun ar yn ail. I ddiweddu'r Gymdeithas yn y Waun, cynhelid swper cyllell a fforc, cyn i'r aelodau wedyn eistedd yn ôl i fwynhau sgets fer roedd William Vaughan Jones, Bron Eryri wedi ei darparu ar eu cyfer. Aelodau o'r gymdeithas fyddai'n cymryd rhan yn y sgets a byddai yna edrych ymlaen yn arw am y perfformiad.

Aeth William Vaughan Jones, neu 'Wil Fôn' fel y'i adwaenid, yn syth o'r coleg i ddysgu yn Llundain, ac yno hefyd roedd ei gyfaill John Gwilym Jones o'r Groeslon, ac yn ystod eu hamser yn Llundain byddai'r ddau yn cael pleser o fynd i wylio'r dramâu diweddaraf yn theatrau'r West End. Ar ôl cyfnod yn Llundain daeth Wil Fôn i ddysgu i Lanfairfechan, ac yn ystod y cyfnod hwnnw y dechreuodd yntau ysgrifennu sgetsiau ar gyfer nosweithiau olaf y Gymdeithas.

Cegin fferm Wmffra ac Elin Prisiart oedd y set, gyda Robert Morris Jones ('Bob Cyrnant Lodge') fel Wmffra, a Gwladys Lewis fel Elin ei wraig, un oedd yn feistres corn ar ei gŵr. "Spencer Tracy a Kathryn Hepburn y Weun!" fel y'i hadwaenid, gan fod y ddau yn deall ei gilydd i'r dim.

Bu'r dramâu byrion hyn yn mynd ymlaen ar hyd cyfnod y rhyfel, ac yn ystod un ohonynt cofiaf weld rhywbeth tebyg i awyren fechan yng nghornel y festri. Awyren heddwch mae'n debyg oedd hon gan fod Wmffra wedi cael 'demob' o'r fyddin ac yn ôl adre yn ffermio efo Elin. Sgets arall oedd yr un am gynhadledd heddwch ar sut i ddatrys problemau mawr y byd. Bob Morris oedd yn actio Hitler, gyda'i fwstas du a chydyn o wallt lawr ochr ei wyneb. Pitar Evans y bwtsiar oedd Chamberlain, a fy nhad fel Stalin. Mae'n debyg fod Mussolini, Roosevelt a De Gaulle yno hefyd, ond dyna'r cwbl i mi gofio. Mae'n debyg fod rhyw fath o ddealltwriaeth wedi digwydd yn y gynhadledd gan i'r rhyfel ddod i ben yn fuan wedyn.

Rhaid oedd bod yn bedair ar ddeg oed cyn cael ymaelodi â'r Gymdeithas, ond gan fod fy nhad yn un o'r criw drama, byddwn innau'n cael sleifio mewn i'r festri i wylio'r *'dress rehersal,'* ac yna brolio yn yr ysgol y bore wedyn fy mod wedi gweld y ddrama. Fy nhad yn ogystal oedd y dyn coluro, ac roedd ganddo gês *'make up'* yn y tŷ, a minnau wrth fy modd yn cael ambell sbec ynddo. Roedd ynddo focs powdr lliw oren, â phowdr 'pyffs' gwyn ym mhoced y caead, â gliw a gwlân i wneud locsyn yn ogystal â '*greasepaint*' o wahanol liwiau, a byddai yna arogl hyfryd yn dod ohono.

Yn dilyn llwyddiant y sgetsus, mentrodd Wil Fôn i ysgrifennu dramâu newydd ar gyfer y criw. Un o'r rhain oedd 'Brwyn ar Gomin,' sef drama oedd wedi ei seilio ar flynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd y wlad hon yn rhyfela yn erbyn Napoleon. Roedd y llywodraeth ar y pryd yn ystyried sut i gynhyrchu mwy o fwyd gan fod y boblogaeth yn cynyddu, a'r mewnforio'n debyg o fod yn ansicr oherwydd y rhyfel. Yn 1801, pasiwyd deddf drwy'r senedd i gau tiroedd y comin a'u hamaethu er sicrhau na fyddai prinder bwyd. O ganlyniad, manteisiodd y bonedd lleol ar y cyfle i feddiannu'r tiroedd comin ar draul y tlodion. Bu'r bobl gyffredin yn ymladd "fel teigrod!" i gadw eu tir, ac er eu hymdrechion bu'n rhaid gwerthu rhai o'r tyddynnod i dalu costau gweinyddu'r ddeddf a phrynwyd y cyfan bron gan y tirfeddianwyr.

I'w barhau …

***Cewch fwynhau darllen rhan nesaf hanes Cymdeithas Lenyddol y Waunfawr yn perfformio Dramau Wil Fôn yn rhifyn mis Mai Eco'r Wyddfa.***

# Pwy oedd biau'r Fachwen?



Yng Nghyfarfod Cystadleuol Undeb Llenyddol Dinorwig a Sardis yn 1902, un o'r testunau oedd 'Traethawd Hanesyddol am yr ardal.' Mae copi o'r traethawd buddugol yn fy meddiant. (Rhoddwyd sylw i'w gynnwys yn y golofn hon sawl blwyddyn yn ôl bellach). Mae brawddeg gyntaf ail baragraff y traethawd yn darllen fel a ganlyn: *"Nid oedd 200 mlynedd yn ôl ond cwm mynyddig o ddwy neu dair o ffermydd, sef Fachwen, Glan y Bala a Thy'n y Mynydd".* Mae'r honiad hwn yn mynd a ni'n ôl mewn amser i tua 1700. Ganrif yn ddiweddarach, (tua 1800) dywed yr awdur fod *"tua 12 o dai"* yn ardal Dinorwig. Datblygiad y chwarel lechi dros y ganrif nesaf a fu'n gyfrifol am gynnydd poblogaeth yr ardal.

Mae'r traethawd yn disgrifio llawer o'r tai hynaf, ac yn nodi rhai o'r teuluoedd oedd yn byw ynddynt. Ond nid yw'n sôn o gwbl am y rhai oedd yn berchen ar y tai, yn enwedig y rhai cynharaf, ar wahân i Dy'n y Mynydd. Honai mai Sion Jones oedd y perchennog a'r preswylydd, ac mai ei ferch, Catrin a roes y tir i adeiladu Capel Sardis.

Hynafiaid Griffith Ellis, goruchwyliwr Chwarel Dinorwig oedd yn byw yn Glan y Bala, ond nid oes sicrwydd mai hwy oedd y perchnogion. Mae'n disgrifio Glan y Bala fel *"hen amaethdy mawr a golwg henafol arno.... cyn ei wneud fel ag y mae yn awr."* Mae Peter Bailey Williams wedi ysgrifennu'r canlynol yng Nghofrestr Plwyf Llanberis: *"Tir Pant opposite Gwerglodd Cwm Meilir on the Llwyn Bedw side, and between the old and new bridges was formerly, together with Clwt yr Eglwys (or Clwt Glan y Bala) held by the tenant of Glan y Bala and paid half a crown for Hay Tithe to the Rector of Llanberis."* Ffin fferm Glan y Bala ar lethrau'r Elidir oedd y ffin hefyd rhwng plwyfi Llanddeiniolen a Llanberis, ac mae'n amlwg o ddisgrifiad Peter Bailey Williams mai Tir Pant oedd y ffin o ochr plwyf Llanberis. Diflannodd Tir Pant dan domennydd Chwarel Dinorwig os oedd union gyferbyn â Chwm Eilir, a does gen i ddim syniad ble roedd neu ble mae Clwt yr Eglwys. Yn y cyswllt hwn, cadarnhau mae Peter Bailey Williams mai tenantiaid oedd y rhai'n byw yng Nglan y Bala, ac nid perchnogion.

Mae'r Fachwen yn cael mwy o fanylder. *"Hen blasdy helaeth ydoedd yn cael ei rannu yn ddwy ran, sef y Neuadd a'r Gegin. Yr oedd distiau derw mawrion o'i fewn, a grisiau cerrig mawr yn arwain i'r llofftydd. Fe awd a'r derw i wneuthur dodrefn a phethau eraill i'r Faenol."* Ac yna daw'r frawddeg hon: *"Bernir ei fod oddeutu 500 mlynedd oed pan y cafodd ei chwalu."* Tomennydd gwastraff llechi yr Allt ddu a'i gorchuddiodd, wrth gwrs, a'r rheini yn ddiweddarach yn cael eu tir-lunio i roi golwg go wahanol i'r ardal erbyn heddiw.

O ddarllen *Hanes Methodistiaid Arfon*, sy'n adrodd hanes capeli'r fro hyd 1900, ceir mwy o gyfeiriadau at Fachwen. Yn Neuadd Fachwen roedd Hugh Morris yn byw, a'i frawd, William yn y Gegin. Mae traddodiad yn adrodd mai yn y Neuadd y pregethwyd gyntaf yn ardal Dinorwig gan y Methodistiaid. Bu Hugh Morris farw yn 1840, ond dywedir fod ei dad, Morris William wedi symud yma tua 1720 o gyffiniau Clynnog.

Dyna fynd a ni'n ôl felly bron iawn i'r cyfnod pan nad oedd ond tri thŷ yn yr ardal. Methodistiaid cynnar yr ardal oedd teulu Morris William, ond ym mynwent plwyf Llanberis y byddent oll wedi eu bedyddio, eu priodi a'u claddu cyn newid deddfau yn gynnar ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Claddwyd Morice William (honedig o Glynnog) *"of Vâch wen, Llanddeiniolen"* ddechrau Rhagfyr 1786 ym mynwent plwyf Llanberis. Ni roddir ei oedran ar y Gofrestr Plwyf. Ddwy flynedd ynghynt, yn 1784 roedd ei ferch seithmlwydd oed wedi ei chladdu – Jane Morrice. Fe'i bedyddiwyd fel Jane Morrice William.

Ond, mae'r enwau Morris William a William Morris yn dyddio'n ôl yn llawer cynharach na 1720, y dyddiad yr honnir i'r teulu ddod i'r Fachwen o ardal Clynnog, ac felly'n awgrymu dilyniant teuluol. Mae profiant ewyllysiau rhai ohonynt wedi eu cofnodi:

1661. Rees ap William Morris, yeoman.
1668. Evan ap William Morris.
1671. Morris ap William Thomas, yeoman.
1683. Thomas John Griffith, Vachwen, yeoman.
1686. Humphrey ap Evan.
1688. Ellin uch William Morris, widow.
1689. William Morrice, yeoman.
1699. Maurice William, Vachwen, yeoman.

Yn y cyfnod hwn mae'r term 'yeoman' yn dynodi rhywun ar safle gymdeithasol un cam yn is na bod yn 'gentleman'. Hynny, yw, roedd 'yeoman' fel arfer yn berchen tir. Collodd yr arwyddocad hwnnw dros y ganrif neu ddwy nesaf, a chai ei ystyried yn ffermwr cefnog yn hytrach na thyddynwr.

Efallai nad yw Fachwen yn cael ei grybwyll ym mhob un o'r gwahanol ddogfennau, ond mae nifer o gyfeiriadau at berchnogaeth tir ym mhlwyf Llanddeiniolen – neu Dinorwig (township of Dinorwic) fel y cyfeirir ato yn y dogfennau cynnar, a pheidied â'i gymysgu gyda'r Dinorwig presennol. Mae rhai yn dyddio'n ôl mor bell a 1535. Rhaid cofio mai tref gaeth oedd Dinorwig a gwŷr caeth yn llafurio yno i'r arglwydd. Diddymwyd statws gyfreithiol gwŷr caeth yn 1507 drwy ddeddf seneddol, ac yr oeddent bellach yn denantiaid ar diroedd eu hynafiaid, ond nid yn berchen ar y tir hwnnw. Yn unigryw o bosib yn hen drefgordd Dinorwig, roedd dau fath o dir caeth. Yn un roedd disgynyddion hen deuluoedd caeth yn parhau i fyw. Yn yr ail, a elwid yn 'dir forfeit', roedd yn eiddo i'r Goron, unai oherwydd troseddu gan y rhai oedd yn byw yno neu oherwydd nad oedd disgynyddion i barhau arno i drin y tir. Y lês ar y tir forfeit hwn yn Ninorwig a roddwyd yn rhodd gan Harri IV i Nicholas Saxton. Cyfeirir atynt mewn dogfennau cyfreithiol fel *'Saxton lands'.* Ac yma mae'r cymhlethdod yn dechrau. Wedi ei farwolaeth daeth y tiroedd i feddiant John Stanley, a phan fu ef farw yn ddietifedd daethant i feddiant Joan Stanley, ail wraig Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn, ac yna i'w ŵyr, Rowland Griffith, Plas Newydd, Môn. Honnir ei fod ef wedi ychwanegu at y tiroedd hyn drwy hawlio rhannau o'r comin.

Yr oedd lês arall ar hen diroedd caeth Dinorwig wedi dod i feddiant Thomas Wiilliams, y Faenol, ac yn 1587 daeth ag achos cyfreithiol yn erbyn Morris a Rowland Griffith, dau frawd a meibion Rowland Griffith, Plas Newydd. Mae Morris wastad yn cael ei adnabod fel Morris Griffith Bachwen, sef fferm yng Nghlynnog, ond nid yw'r cysylltiad yn eglur iawn. Roedd ei frawd, Rowland wedi priodi Elisabeth, merch Rowland Owen ap Meurig o Landdeiniolen, felly mae'n debygol ei fod yn byw yn y fro. Honnai Thomas Williams fod y brodyr wedi ychwanegu at eu tiroedd yn Ninorwig drwy symud y '*meer stones*', sef y cerrig oedd yn nodi terfynau'r tir comin.

Bu farw Thomas Williams, y Faenol yn 1592, bum mlynedd wedi cychwyn yr achos yn erbyn y brodyr Griffith, ond mae'n amlwg fod ei fab, William Williams wedi parhau â'r cyfreithio. Mae dogfen ar gadw yn yr Archif Cenedlaethol yn Llundain dyddiedig 1600 i 1601 yn cynnwys nid yn unig enwau personol, ond enwau eiddo yn Ninorwig hefyd: *"John Griffith, Morrice Griffith, Robert Griffith of Vachwen and Humphrey Morrice of Dinorwik",* ac unwaith yn rhagor mae cyfeiriad at y *"meers and bounds",* sef y cerrig ar y terfynau. Felly mae'n ymddangos fod disgynyddion Plas Newydd yn berchen tir yn hen dref Dinorwig, a bod Fachwen yn rhan o'u heiddo. Nid yn unig hynny, roeddent wedi ychwanegu at yr eiddo hwnnw drwy 'ddwyn' tir oddi ar y comin. Ac y mae'r enw 'Morrice' yn amlwg yma hefyd.

Mae'r hanes hwn am y cyfreithio am diroedd caeth Dinorwig wedi ei gwtogi'n sylweddol o erthygl gan yr Athro T. Jones Pierce – *"Notes on the History of Rural Caernarvonshire in the Reign of Elizabeth*", a'r achau wedi eu olrhain yn *"Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families"* gan J.E.Griffith.

Sut tybed y daeth Fachwen i feddiant Glynllifon? Roedd eisoes ym meddiant Glynllifon erbyn 1766, oherwydd caiff ei enwi yng nghytundeb priodas Thomas Wynn a Catherine Percival. Gwerthwyd Fachwen i Stad y Faenol ym 1840 am £13,500; swm aruthrol am lethr mynyddig – gwerth bron i £820,000 heddiw – ond wrth gwrs, roedd y Faenol angen y tir ar hyd glannau Llyn Padarn i adeiladu rheilffordd i gario llechi i borthladd Y Felinheli. Bydd angen parhau efo'r chwilio ym mhapurau Llanfair a Brynodol i ddarganfod a oes cofnod o werthiant i Glynllifon.

**Ble roedd Bryn Golau?**

Ddeufis yn ôl tra'n dilyn hynt y cyfansoddwr emynau o Seion, soniais am dŷ o'r enw Bryn Golau yn yr ardal honno, a'r dybiaeth ei fod ar dir fferm Tŷ Mawr. Mewn traethawd ar "Hanes Eglwys a Phlwyf Llanddeiniolen" gan John Edward Williams (Ioan Wyn), mae'r awdur yn rhestru rhai o hen anheddau'r plwyf oedd wedi diflannu. Does dim dyddiad i'r traethawd, ond mae'n ymddangos ei fod wedi ei ysgrifennu tua diwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae Bryn Golau yn cael ei gynnwys yn y rhestr, ac mewn cromfachau mae *"ar dir Ty Mawr"*. Mae arolwg o eiddo'r Faenol tua 1800 yn disgrifio Cae'r Maen Ucha ar dir y fferm, ac yn nodi fod y tenant *"late David Pritchard...built a range of new houses of stone and covered them with slates.."* Ond does dim sôn am dŷ o'r enw Bryn Golau.

A dyna fwy na digon i gnoi cil arno am y mis. Os oes gennych unrhyw ymholiad am unrhyw agwedd o hanes lleol y fro, yna cysylltwch efo Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd. wthomas@btinternet.com

# Nodiadau Natur

Beth welaf i efo'n llygaid bach i…? Debyg ein bod i gyd wedi chwarae'r gêm yma pan yn blentyn neu gyda'n plant neu wyrion ac wyresau, yn enwedig wrth deithio am gyfnod hir yn y car.

Beth welwch chi pan edrychwch chi allan drwy'r ffenast? Wrth gerdded? Wrth grwydro o gwmpas bro'r Eco neu ymhellach?

Fyddwch chi'n dotio at yr hyn welwch chi? Ydach chi bob amser yn siŵr o beth ydach chi'n ei weld?

Dyma gychwyn cyfres o erthyglau am beth allwn ni ei weld ym myd natur yn ein bro. Fesul dipyn, gan bwyll bach, byddwn yn trafod planhigion, adar, anifeiliaid, pryfetach ac unrhyw beth arall sydd i'w weld ym myd natur ym mro'r Eco. Cofiwch bod can croeso i unrhyw un ymateb i'r cynnwys neu i rannu eu gwybodaeth am fyd natur efo ni.

**Llygaid Ebrill** ***(Ranuncula ficaria)***

Dyma flodyn fydda i wrth fy modd yn ei weld yn blodeuo yn rhwng mis Mawrth a mis Mai, ac fel mae'r enw'n awgrymu ym mis Ebrill. Rywsut mae'r lliw melyn yn codi calon ac yn arwydd bod y gwanwyn ar ei ffordd.



Mae'n blanhigyn cynhenid i wledydd Prydain ac i'w weld yn aml mewn llefydd cysgodol, megis coedwigoedd, gwrychoedd ac ar ochrau nentydd. Mae'n blanhigyn lluosflwydd sy'n tyfu hyd at 15cm ac yn ymledu trwy wreiddiau tanddaearol. Bydd yn marw lawr erbyn diwedd mis Ebrill neu ddechrau mis Mai. Mae ganddo ddail gwyrdd tywyll, siâp calon sydd efo marciau lliw arian neu efydd arnynt. Un blodyn sydd ar bob coesyn ac mae'r lliw melyn llachar yn araf droi'n wyn wrth i'r planhigyn heneiddio. Mae'r blodau'n cau yn y nos ac os nad oes fawr o haul.

Mae'n cynhyrchu ffrwythau o glystyrau o gnapiau bach gwyrdd, gyda phob un ar ffurf pig ac yn cynnwys un hedyn.

Mae'n ffynhonnell dda o baill a neithdar i bryfaid a chwilod bach, a gwenyn, yn gynnar yn y gwanwyn.

Yn yr ail ganrif ar bymtheg nododd Culpeper bod y planhigyn yn cael ei alw'n 'Pileworth' gan ei fod yn gallu gwella 'clefyd y marchog' (*haemorrhoids*)! Fodd bynnag mae'r dail yn chwerw ac yn wenwynig. Felly pwyll bia hi!

**Briallu (Primula vulgaris)**

Mae un blodyn melyn arall sydd hefyd i'w weld ym misoedd cynnar y gwanwyn ac yn blodeuo rhwng mis Ebrill a mis Mai. Ond nid melyn llachar sy'n lliwio'r blodyn hyfryd hwn ond melyn golau, lliw hufen, sy'n dal i wneud i mi ddotio ato bob tro daw i'r fei. Oeddech chi'n gwybod mai tarddiad y gair Briallu yw Ebrill-lu?



Mae'n flodyn sy'n tyfu drwy Ewrop ac yn hoffi lle cysgodol ym môn y clawdd, o dan dyfiant gwrych, mewn coedlan neu ar ddôl laith. Maent yn ffynhonnell gynnar dda o neithdar i löynnod byw. Mae llwyth ohonynt yn tyfu ar fanc ar ochr y ffordd wrth i chi droi oddi ar yr A55 ar y ffordd ymadael am y gylchfan sy'n eich arwain chi at Wasanaethau Llys y Gwynt (*One Stop*). Dwi'n dotio atynt bob tro dwi'n eu gweld nhw.

Mae'n blanhigyn lluosflwydd gyda rosét o ddail gwyrdd crychlyd, tua 10 i 15cm o hyd, sy'n ddigon tebyg i siâp llwy, tra bo'r dail odditanynt yn flewog ac yn oleuach eu lliw.

Tyfa'r blodau melyn golau, golau ar goesyn hir a blewog tua 5 i 10cm o uchder. Gwelir pum petal , siâp calon i bob blodyn tua 3cm ar eu traws, gyda chanol tywyllach na phetalau golau'r blodyn.

Os oes ganddo'ch friallu lliwgar (*polyanthus* ) yn eich gardd, mae'r friallen wyllt yn sail i'r rhai hynny. Ar y llaw arall os welwch chi friallu pinc yn tyfu'n wyllt mae'n debyg mai rhai wedi dengid o ardd rywun ydyn nhw.




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk


Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# Rheolwraig Newydd i Dîm Pêl-Droed Merched Cymru

Ar y 26ain o Chwefror, penodwyd rheolwraig newydd i dîm pêl-droed Merched Cymru, sef Rhian Wilkinson. Mae Rhian Wilkinson wedi arwyddo cytundeb sy'n golygu y bydd hi'n cymryd y llyw i reoli Merched Cymru hyd at 2027.

Merch o Ganada yw Rhian Wilkinson, ac fe enillodd 183 o gapiau wrth chwarae dros dîm Canada, yn cynnwys chwarae mewn pedair cystadleuaeth Cwpan y Byd a thri Gemau Olympaidd.

Ers iddi ymddeol fel chwaraewr yn 2017, mae Rhian eisoes wedi cael blas ar reoli. Mi fu hi'n rheoli timau dan 17 a dan 20 oed Canada; ac mae wedi bod yn reolwr cynorthwyol i Loegr, 'Team GB' a Chanada. Yn fwyaf diweddar, roedd hi'n rheoli'r Portland Thorns, gan ennill y Gynghrair yn ei thymor cyntaf wrth y llyw. Mae ganddi felly ddigon o brofiad o lwyddiant.


Er mai o Ganada y daw Rhian, mae ganddi gysylltiadau Cymreig. Cymraes yw ei mam, ac mi dreuliodd Rhian amser yng Nghymru pan oedd yn ifanc.

Mae cyfnod cyffrous o flaen y merched, gyda'r tîm yn ceisio hawlio lle yng nghystadleuaeth Ewro 2025. Byddant yn cychwyn eu hymgyrch i gyrraedd Ewro 2025 fis Ebrill. Mae eu grŵp rhagbrofol yn cynnwys Kosovo, Croatia ac Wcrain. Grŵp digon heriol; ond Cymru fydd y ffefrynnau.

Mi fydd hi'n ddiddorol iawn gweld sut steil fydd y tîm yn chwarae o dan arweiniad Rhian. Mae'n debyg ei bod hi'n ffafrio steil ymosodol; ac felly bydd yn dipyn o newid i'r hyn yr ydym wedi arfer ag o tra oedd Gemma Grainger wrth y llyw. Mae un peth yn sicr: mae talent ymysg y chwaraewyr ac mae yna waed ifanc sy'n benderfynol o sefyll allan a gwneud eu marc. Mae amser cyffrous o'n blaenau; a gobeithio wir y bydd Merched Cymru yn llwyddo i gyrraedd un o'r prif gystadlaethau dan arweiniad Rhian Wilkinson.

**Mared Rhys Jones**

# Dal i redeg...



***Rasys Nos Fawrth***
Gair i atgoffa y rhai sy'n bwriadu cystadlu yn y gyfres boblogaidd bob nos Fawrth am y tri mis nesaf. Fel y cyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco*, bydd dwy ras gyntaf y gyfres yn cychwyn o Ganolfan y Fron. Yno y bydd y cofrestru hefyd: felly, cyrhaeddwch mor gynnar â phosib.

Bydd y ras gyntaf ar yr 2il o Ebrill, yn cychwyn am 7.00pm ac yn anelu am gopa Moel Tryfan. Wythnos yn ddiweddarach, ar y 9fed o Ebrill, yn ôl i'r Fron, ac unwaith eto, y ras ar Fynydd Cilgwyn yn cychwyn am 7.00. Y rasys am weddill mis Ebrill fydd:

16eg Ebrill, Moel Lus, Capelulo, Penmaenmawr am 7.00pm.

23ain Ebrill, Ras y Tair Gallt, Penmaenmawr am 7.15pm.

30ain Ebrill, Pen Dinas, Nant Peris 7.15.

Bydd rasys ieuenctid a phlant yn cael eu cynnal yr un amser. Y tâl cofrestru yw £2 y ras neu £20 ymlaen llaw am y 13 ras.

Gobeithio y gellir cynnwys canlyniadau'r ddwy ras gyntaf yn y gyfres yn rhifyn Mai o'r *Eco*.

***Rasys Pencampwriaeth Clwb Rhedwyr Eryri***
3ydd Mawrth: Ras y 4 Copa o Ganolfan y Fron.
20fed Ebrill: Ras Moel Wnion o Lanllechid.
1af Mehefin: Ras y 1000metr o Aber i gopa'r Wyddfa.
15fed Mehefin: Ras Mynydd Tŵr, Caergybi.
30ain Mehefin: Ras y Foel Fras, Abergwyngregyn.
13eg Gorffennaf: Ras Tal y Fan, Ro-wen.
21ain Medi: Ras Pedol Peris, Llanberis.

***Ras Moel Eilio***
**Rhaghysbysiad:** Bydd Ras Moel Eilio yn cael ei chynnal o Lanberis ar y 4ydd o Fai eleni, gyda'r holl elw'n cael ei gyflwyno i Elusen Cancr Tenovus.

Ar wahan i Gyfres Nos Fawrth mae mwyafrif y rasys eraill yn gofyn am gofrestru ymlaen llaw. Felly, chwiliwch y cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth.

Fel y gwelir o'r rhestrau uchod, mae'n bosib cystadlu bron iawn bob wythnos dros fisoedd y gwanwyn a'r haf, ond mae rhai wedi eu cynnal eisoes wrth gwrs.

***Hanner Marathon Môn***
Ar Sadwrn cyntaf mis Mawrth, roedd bron i fil a hanner o redwyr wedi ymgynnull ym Mhorthaethwy i gystadlu mewn un o ddwy ras: Hanner Marathon Môn neu Ras 10 cilometr. Ac er bod eira ar fynyddoedd Eryri, roedd y tywydd yn ffafriol ar gyfer y rhedwyr. Roedd dwy chwaer o Lanrug yn cystadlu yn yr Hanner Marathon. Llongyfarchion i Shannon ac Alaw Owen ar eu llwyddiant – ond roedd cwmni ganddynt ar y daith, gyda Llion Davies a Sion Williams yn gofalu amdanynt – neu efallai mai'r chwiorydd oedd yn gofalu am yr hogia!

Ac i barhau â'r thema deuluol, roedd modryb i'r chwiorydd – Fiona Morgan, a'i gŵr Hugh, yn cystadlu mewn ras yng Nghwm Elan ger Rhaeadr; ras oedd chwe milltir yn hwy na'r Hanner Marathon. A chwblhaodd y ddau'r pellter o 18 milltir caled mewn llai na theirawr.




O'r chwith i'r dde Llion Davies, Shannon Owen, Alaw Owen a Sion Williams.

# Pencampwyr



Carfan Ail Dim Llanrug

Ddiwedd Chwefror, daeth hanner cyntaf Cynghrair Ddatblygu Gogledd Cymru i ben. Roedd yr hanner cyntaf wedi ei rannu i Ardal y Gorllewin ac Ardal y Dwyrain er mwyn arbed costau teithio. Dyma'r gynghrair i ail dimau, ac yn Ardal y Gorllewin roedd Llanrug a Llanberis yn cystadlu. Ond o ganlyniad i aeaf hynod o wlyb, methodd pedwar o'r timau â chwblhau eu gemau – gan gynnwys y ddau dîm o fro'r Eco. Ar y penwythnos olaf, roedd Trearddur ar frig y gynghrair, ac wedi chwarae pob un o'u gemau. Yn ail, gyda dim ond un pwynt yn llai a dwy gêm mewn llaw, oedd Llanrug. Oherwydd y gwahaniaeth goliau, byddai gêm gyfartal wedi bod yn ddigon i Lanrug ennill y gynghrair, ond doedd dim posib chwarae dwy gêm ar ddiwrnod olaf y mis! Roedd Llanberis mewn sefyllfa debyg, ond byddent yn sicr o ddiweddu'n bedwerydd yn y gynghrair, waeth beth fyddai eu canlyniadau. Bontnewydd oedd gwrthwynebwyr Llanrug. Roedd y gêm wedi ei gohirio ddwywaith oherwydd cyflwr cae Bontnewydd – a bu'n rhaid chwarae ar gae pob-tywydd Plas Silyn ym Mhenygroes. Llanrug oedd yn fuddugol o 5 gol i 3, gan orffen hanner cyntaf y tymor yn bencampwyr Cynghrair Ddatblygu'r Gorllewin.

Mae Llanrug, Trearddur, Nefyn a Llanberis bellach yn cystadlu yn erbyn y pedwar tîm a orffennodd ar frig Cynghrair y Dwyrain – ond dim ond unwaith yn unig y bydd pob tîm yn wynebu ei gilydd, sef saith gêm i bob tîm. Mae hynny'n golygu y bydd gan bedwar o'r timau bedair gêm gartref a thair oddi cartref. Bydd gan y pedwar tîm arall dair gêm gartref a phedair oddi cartref, sy'n golygu y bydd y costau teithio i gemau oddi cartref yn drymach arnynt hwy. Nid yw hynny'n deg nac yn ddelfrydol. Pa dimau tybed fydd yn ddigon lwcus i gael chwarae pedair o'u gemau gartref?

# Llanberis v Llanrug



Ddechrau Mawrth roedd hi'n gêm ddarbi yn Ffordd Padarn wrth i Llanberis groesawu Llanrug. Hon oedd yr ail gêm rhwng y ddau dîm y tymor yma, wedi i Lanberis ddod yn ôl o ddwy gôl i lawr i ennill 3-2 yn Eithin Duon mis Tachwedd.

Hon oedd y gêm gartref gyntaf i Lanberis yn 2024 gyda phob un o'i 6 gêm flaenorol eleni wedi bod oddi cartref. Cymysglyd fu y canlyniadau gyda 3 buddugoliaeth allan o'r 6.

Stori tra wahanol i Lanrug. Gyda chlwb Eithin Duon wedi ennill pob un o'i 5 gêm yn 2024. Roedd hi'n argoeli i fod yn dipyn o gêm.

Cychwynodd pethau heb i'r naill dîm na'r llall gael gafael ar y gêm, er i'r ddau gael cyfleoedd. Cic rydd gan Dion Owen i Lanberis ond arbediad hawdd i Dylan Roberts yn y gôl i Lanrug. Tra ar yr ochr arall, Jamie Mcdaid yn gweld cyfle tu allan i'r cwrt cosbi ond ei ergyd yn cael ei wyro oddi ar amddiffyn Llanberis am gic gornel.

Daeth cyfle da i Lanrug wedi i amddiffynnwr Llanberis, Kurt Hellfeld, reoli'r bêl i gyfeiriad y golwr, ond y dyfarnwr yn dynodi cic rydd am '*back pass*'. Felly cic rydd yn y cwrt cosbi gan Jonny Sadler i Lanrug o ongl dynn ond arbediad gwych gan golwr Llanberis Lee Williams ar y postyn agosaf. Roedd hi'n gêm dynn ac yn ddi-sgôr ar yr hanner.

Dechrau ail hanner a chyfle cynnar i Lanrug a fflic tu allan i'r cwrt gan Jamie Mcdaid i lwybr Sadler yn y cwrt cosbi ond ei ergydiad yn isel ar draws gôl, a heibio'r nod.

Daeth cyfle arall i Lanrug, a gwaith da eto gan Sadler ar y dde tro hyn i mewn i'r cwrt ond ei ergyd yn cael ei rhwystro gan amddiffyn Llanberis.

Hanner ffordd drwy'r hanner a chic gornel o'r dde i Lanberis gan Dion Owen ac ar y postyn pellaf Kurt Hellfeld yn penio'r bêl i gefn y rhwyd. Llanberis ar y blaen a gôl yn erbyn llif y chwarae rhaid dweud.

Tri munud yn ddiweddarach daeth pas hir o ganol cae gan Gethin Maxwell i lwybr Ifan Mansoor, ac yntau yn gynt na amddiffyn Llanrug. Mansoor yn codi'r bêl dros Roberts yn y gôl i ddyblu mantais Llanberis. 2-0 i'r Darans. Er y meddiant yn yr ail hanner roedd Llanrug ar ei holi hi.

Cafodd y cochion gyfleoedd i ddod nôl i mewn i'r gêm. Ifan Emlyn Jones a chic rydd o bell ond heibio'r targed. Yna daeth cyfle arall i Jones gyda ei groesiad o'r chwith yn taro'r trawst a creu trafferth i Williams yn y gôl i Lanberis, ac Osian Jones ar yr ail gynnig yn methu a tharo'r targed. Cyfle gwych i Lanrug.

Yn y funud olaf Llanberis yn cadw'r bêl ym mhen pellaf y cae. Y bêl yn y cwrt cosbi ac amddiffyn Llanrug methu â chlirio a Hellfeld yn y fan a'r lle i rwydo ei ail o'r gêm a thrydydd gôl Llanberis i sicrhau y fuddugoliaeth. Roedd y dathliadau ar fainc Llanberis yn dweud y cyfan.

Llanberis gyda buddugoliaeth o 3-0 ac yn gwneud y dwbwl dros Lanrug y tymor yma. Yn dilyn y fuddugoliaeth mae Llanberis wedi dringo uwchben Llanrug yn y tabl a phwynt yn unig yn gwahanu'r ddau dîm.

Mae hi'n agos ac yn argoeli i fod yn gyffrous am weddill y tymor.

**Elgan Rhys Jones**

# Llwyddiannau Ieuenctid Clwb Hoci Caernarfon yn ystod y tymor

Da iawn wir Anest Hickey sydd yn cynrychioli Eryri dan 15 ym Mhencampwriaeth Sir Hoci Cymru, a Martha Nel, Maia Murray, Fflur Lloyd Jones, Hanna Owen ac Erin Bowness yn y tîm dan 17.

Roedd tair o'r clwb hefyd yn rhan o dimau merched Gogledd Cymru: Maia a Martha yn chwarae i'r tîm dan 16 ac Elain 'Jiws' Owen yn gapten y tîm dan 18 ac a arweiniodd ei thîm i fuddugoliaeth 10-0 yn erbyn Dwyrain Sir Caer ym mis Ionawr. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Iago Hedd, brawd Martha, sydd bellach yn rhan o garfan ieuenctid dynion Bangor, ar gael ei ddewis i dîm hoci bechgyn dan 13 Gogledd Cymru. Pob hwyl iddo.







Llongyfarchiadau i Martha, Hanna, Cadi a Fflur ar gynrychioli Eryri dan 17 a rhoi Eryri ar y brig trwy Gymru nôl ym mis Chwefror! Roedd hi'n benwythnos prysur o hoci i Martha Nel, gan ddilyn y gêm hon gyda gêm lawn i'r tîm cyntaf yn erbyn Trallwng ar y Sadwrn, ac yna'n capteinio tîm hoci dan 16 Gogledd Cymru ar y Sul. Arweiniodd Martha y tîm i fuddugoliaeth 8-2 yn erbyn Swydd Gaerhirfryn.

Hoffai'r clwb ddymuno llongyfarchiadau mawr i Manon 'Jiws' Williams ar gael ei dewis i chwarae i dîm hoci Cymru dros 45.

Yn ogystal â'r holl lwyddiannau hyn, mae'r clwb yn parhau i chwarae gyda dau dîm yng Nghynghrair Gogledd Cymru ar y penwythnosau, a thimau ieuenctid dan 10, 12, 14 ac 16 yn y Gynghrair Datblygu Ieuenctid. Cofiwch ddilyn Clwb Hoci Caernarfon ar y cyfryngau cymdeithasol i ddilyn hynt a helynt y clwb.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >